YR YMOFYNYDD.

RHIF. 68.] AWST, 1864. [AIL GYFRES.

Y GWYLIAU TEIR-CAN-MLWYDDOL.

MAWR y twrw fu trwy'r wlad yma ym mis Ebrill diweddaf am Garibaldi a Shakspeare ;—am Garibaldi, oherwydd ei fod wedi dyfod trosodd o'i fwthyn bychan yn Caprera i ymweled â ni yn y wlad hon—ac am Shakspeare o herwydd ei fod wedi digwydd gwneuthur ei ymddangosiad cyntaf yn y byd yma rhyw dri chan mlynedd i'r 23ain o Ebrill diweddaf. Cadwyd gwyl o goffadwriaeth am Shakspeare dros yr holl wlad—gwyl o goffadwriaeth ei fod wedi *ymddangos yn y byd* ac wedi gwneuthur rhywbeth tra bu ynddo yn werth ei gofio am dano. Braidd yr oedd y twrw am Shakspeare wedi gostegu, cyn bod arwyddion am wyl drachefn ; gwyl deir-can-mlwyddol hefyd o goffadwriaeth am wr enwog arall ; ond nid o goffadwriaeth ei fod wedi *ymddangos* yn y byd, eithr ei fod wedi *myned allan o hono.* Yr un mawr hwn ydoedd JOHN CALVIN, ac un mawr, mawr ydoedd. Bu farw ar y 27ain o Fai, 1564, sef yr un flwyddyn ag y cafodd Shakspeare ei eni ; yr hyn, yn anffodus dybygwn, sydd wedi dwyn y ddau enw i gysylltiad â'u gilydd. Y mae'r ddau wedi cael dylanwad mawr ar y byd, yn ddiammheu, ond tra mae dylanwad Shakspeare yn gyflym gyflym yn myned ar gynnydd, y mae dylanwad John Calvin mor gyflym a hyny yn lleihau.

Scotland ydyw prif fagwrfa Calviniaeth yn bresennol, ond y mae dylanwadau mwy tyner a mwy dynol, yn raddol yn curo i'r llawr ei hamddiffynfeydd cadarnaf hyd yn oed yno. Calvinaidd serch hyny ydyw Scotland hyd yma ; mwy Calvinaidd o lawer na Geneva ei hunan ; mwy Calvinaidd o bossibl nag un wlad arall dan haul, oddieithr feallai Gogledd Cymru. Y mae'r Ysgotiaid, ac yn naturiol, wedi bod yn fwy eu twrw am dano na neb ar yr wyl ddiweddar. Calvinaidd i'r bôn ydoedd John Knox,* y Diwygiwr mawr Ysgotaidd, ac yn llyffetheiriau John Knox y mae'r Ysgotiaid hyd yn hyn yn byw.

Dydd Gwener y 27ain o Fai diweddaf ynte y cadwyd gwyl teir-can-mlwyddol marwolaeth Calvin. Cadwyd yr wyl yn Geneva, Edinburgh, Llundain, a lleoedd eraill, ond yn Geneva nid oedd dim cymmaint o frwdianwch ag y disgwylid. Gwnawd sylw arno yn *soirée* flynyddol yr *Evangelical Alliance.* Llefarodd llawer, a llefarwyd llawer, am Calvin ; ond am ei ymddygiad tuag at Servetus aeth y rhan amlaf y tu arall heibio, a hyny oedd gallach iddynt na cheisio amddiffyn yr hyn oedd yn feius ynddo. Ni chlywyd sôn erioed, goeliwn, fod un Undodwr yn ceisio amddiffyn Socinus yn erlid Francis David. Yng nghwrs ei araeth dywedodd y Parch. Baptist Noel :

* Ganwyd John Knox yn 1505, pedair blynedd o flaen Calvin a Servetus ; ymgyssylltodd â Chalvin yn Geneva yn 1554 ; a bu farw yn 1572.

"Nid oedd Calvin ddim yn ddyn traws. Yr oedd yn gyffelyb i'w gydoeswyr pan yn anoddefgar. Yr oedd yn meddwl os byddai dynion yn troseddu ar wirionedd Duw, y dylai'r drwg gael ei attal; ac os na allai gael ei attal mewn un ffordd arall, y dylent gael eu lladd. Dyma ydoedd ei farn ynghylch Servetus, yr hwn oedd yn anffyddiwr beiddgar. Nid oedd yn barnu y dylai gael ei losgi; ond ceisiodd yn hir i'w achub rhag hyny; a hwn oedd yr unig *judicial murder*, canys dyna y galwai efe (Mr. Noel) ef, y bu Calvin ag un llaw ynddo. Yr oedd yr hyn a wnaethpwyd yn fawr yn erbyn ei deimladau, ond yr oedd efe o'r un feddwl a'r oll o Ewrop wrth feddwl y dylasai Servetus gael ei ddihenyddio am ei anghrediniaeth."

Yr un diwrnod darllenwyd papurau gan enwogion ar y pyngciau canlynol: "Cymmeriad Calvin; ei le a'i ddylanwad ymhlith y Diwygwyr;" "Duwinyddiaeth Calvin, yn gyfundraethol ac yn esponiadol;" "Calvin a Knox; neu yr hyn y mae Scotland yn ddyledus am dano i Calvin;" "Amddiffyniad o Calvin rhag camddarluniadau diweddar."

Yn y *Congregational Union* darllenwyd papur gan y Parch. A. Thomson. Ac wrth gynnyg penderfyniad ar y pwngc, dywedodd y Parch. Dr. Halley:

"Yr ydym yn clywed am Servetus, a'r rhan a gymmerodd Calvin yn ei farwolaeth. Yn awr, nid wyf fi amddiffynydd erledigaeth. Y mae yn ddrwg genyf fod un dyn yn cael ei osod i farwolaeth gan benboethni *(bigotry.)* Nid wyf yn bwriadu amddiffyn Calvin, er fy mod yn credu fod llawer yn cael ei ddywedyd am dano na sydd wir, ac yr wyf yn credu fod un dosparth o'i amddiffynwyr wedi gwneud mwy o ddrwg iddo na'i wrthwynebwyr. Y mae's wedi dywedyd fod Calvin wedi cyd-fradwriaethu condemniad Servetus yn Lyons deuddeg mlynedd cyn ei farwolaeth, ei fod wedi ei erlid am ddeuddeg mlynedd, ac i'r llythyrau at *Dadau yr Inquisition* i gael eu suppleio gan Calvin. 'Does dim o'r prawf lleiaf i gael dros hyn. Y cwbl a wnaeth Calvin oedd profi mai Servetus oedd Servetus, a dangosodd anfoddlonrwydd i wneud hyny. Yr ydys wedi dywedyd fod Calvin wedi cael ei gario gan ysbryd ei oes. Yn sicr nid wyf fi ddim yn credu fod un dyn yn yr oes hono, yn Brotestaniad na Rhufeiniad, a'r na fuasai yn cyttuno ym marwolaeth Servetus. Condemniodd y Roman Catholics ef deuddeg mlynedd cyn hyny i gael ei losgi wrth dân araf, a dylent hwy am byth fod yn ddistaw ar y pwngc. Ar yr amser hwnw nid oedd gan Calvin fawr dylanwad gyda'r Llywodraeth. Nid gwaeth Calvin oedd iddo gael ei losgi, ac mewn perthynas i'r Diwygwyr eraill, a fu erioed ddyn mwy mwyn, mwy caruaidd na Melancthon; ac etto gwyddom ei fod ef wedi cymmeradwyo marwolaeth Servetus. Yr wyf yn hyderu na chaniatawn i Calvin i gael ei enllibio am beidio bod ymhob peth o flaen ei oes."

Y mae'n wir fod rhyw arwydd fel pe byddai caledwch calon Calvin yn tyneru peth yn y geiriau canlynol, y rhai a ddefnyddiwyd ganddo wedi i'r 40 cwyn a ddygwyd yn erbyn Servetus, i gael eu profi gan y Senedd: "Yr wyf yn gobeithio," meddai, "y pasir dedfryd marwolaeth o leiaf arno, ond yr wyf yn dymuno ar i lymder y gosb i gael ei leihau."—*(Calvin's Letters. Vol. II.*, 399). Ond digon tebyg ei fod yn rhy ddiweddar y pryd hwnw. Y mae ysbryd Calvin tuag at y rhai a wahaniaethent oddiwrtho mewn barn yn cael ei ddangos yn ei lythyron ei hunan. Wele ddau enghraifft—mewn llythyr at Laelius Socinus* y mae yn dywedyd: "Ac mewn gair, y mae yn

* Ganwyd L. Socinus yn 1525; bu farw Mai 14, 1562.

flin iawn genyf fod y talentau ardderchog â'r rhai y mae Duw wedi eich donio chwi, yn cael eu defnyddio, nid yn unig gyda pheth sydd ofer a diffrwyth, ond eu bod hefyd yn cael eu niweidio gan fympwyon dinystriol. Yr hyn y'ch rhybuddiais o hono er ys llawer dydd, yr wyf yn ei ail-adrodd etto, oni chyweiriwch mewn amser y crafu yma am ymchwiliad, y mae lle i ofni y dygwch arnoch eich hunan ddioddefaint tost." Y flwyddyn wedi hyn y gosodwyd Servetus i farwolaeth. Mewn llythyr at *Farel*,* dyddiedig Chwef. 13, 1546, y mae Calvin yn ysgrifenu am Servetus fel hyn: "Y mae yn cynnyg dyfod hyd yma os mynaf. Ond nid wyf fi yn dymuno gwystlo fy ngair am ei ddiogelwch; oblegid os dod a wnaiff, ni chaniatâf iddo i ddychwelyd yn fyw, os bydd fy nylanwad i o un pwys." Yn yr *English Cyclopædia* dywedir, "ni chyflawnwyd gweithred mwy barbaraidd erioed gan y *Roman Catholics* nâ llosgiad Servetus, yn yr hwn y mae yn ymddangos fod Calvin yn cael ei gynnhyrfu gan gasineb personol yn gymmaint â chan benboethni crefyddol, ac yn yr hwn y llanwodd efe yr holl wahanol ranau (swyddau) o *informer*, *prosecutor*, a *judge*."

Cyfeiriodd George Gilfillan, Ysgotyn enwog, fel y canlyn ato mewn pregeth yn ddiweddar: dywedodd "fod John Calvin wedi bod yn wron yr wythnos a aeth heibio, ond ei bod yn beth tra drwg-argoelus fod ei edmygwyr wedi dewis fel *anniversary* nid *date* ei enedigaeth, Gorphenaf 10, 1509, ond dydd ei farwolaeth, y 27ain o Fai, 1564. Yr oedd Calvin yn ddiammheu yn ddyn mawr, ac yr oedd llawer o wirionedd yn ei gyfundrefn. Ond nid yn unig nid Crist oedd Calvin, ond yr oedd ganddo lai o Grist o beutu iddo na nemawr o un difinydd Cristnogol a allai efe ei enwi. Yr oedd yn draws, yn gul, yn ddogmaticaidd, yn oer, yn greulawn. Yr oedd y gyfundrefn lywodraethol a sefydlwyd ganddo tra fu yn byw yn Geneva yn waeth na'r un oedd yn Naples dan Bomba. Cyfundrefn o greulonder anifeilaidd ydoedd. Torrwyd pen un James Gruet am ysgrifenu rhyw benillion gwyllt. Yr oedd hyd yn oed bechgyn a merched bach yn agored i gael eu gosod i farwolaeth am droseddiadau dibwys. Ac a oedd angen son am Servetus—enw yr hwn, er gwaethaf twyll-ddadleuaeth un-ochrog amddiffynwyr Calvin, oedd yn gorphwys fel blotyn gwaedlyd ar dalcen y Diwygiwr enwog hwnw? Mentrai haeru (gallai ymddangos yn hynod yn awr, ond yr oedd dydd yn dyfod pan yr ymddangosai yn wirionedd diammheuol) fod Shakspeare, gwyl teircanmlwyddol yr hwn a gadwyd yn ddiweddar, yn well cynnrychiolwr o'r grefydd Cristnogol na Chalvin. Yr oedd un yn fonach mewn gwir, er nad mewn enw; y llall yn ddyn yn yr ystyr helaethaf o'r gair. Y naill yn Iuddew o'r *stoniest type*, y llall yn Gristion o'r gradd ardderchocaf. Yr oedd y naill yn cael drwg mewn pethau da; y llall yn cael enaid daioni mewn pethau drwg. Ysgrifenodd yr un ei *Institutes of Theology* mewn Lladin arddunol, y rhai a ddarllenid gan ysgolheigion yn unig; ysgrifenodd y llall *ddramas* mewn Saesneg plaen y rhai a ddarllenid gan y byd gwareiddiedig, ac a gawsent eu darllen, pan *na* buasai Calviniaeth, a dywedyd y lleiaf yn cael ei chyfrif, fel y mae yn awr, yr un peth a Christnogaeth."

Terfynwn yn bresennol gyda'r difyniad a ganlyn allan o *Fāner ac Amserau Cymru*:—"Amddiffynodd Dr. Goold ef, yn Edinburgh, mewn dull medrus, rhag rhai o'r cyhuddiadau a roddir yn ei erbyn; ond ofer oedd ei ymgais i'w glirio oddiwrth y cyhuddiad yn achos Servetus. Llawer o flynyddoedd yn

* Ganwyd Guillaume Farel yn 1489; bu farw yn 1565.

ol, ysgrifenodd Dr. Tweedie lyfr i brofi nad oedd Calvin yn euog o lofruddiaeth y dyn anffodus hwn; ond er ei fod wedi ei ysgrifenu yn gampus, fe wnaeth fwy o ddrwg nag o les i gymmeriad Calvin. Ar ol hyny y cyhoeddwyd y bywgraphiadau goreu o hono. Y mae Mr. Dyer a Felix Bungener wedi dyweyd bron y cwbl sydd i'w ddyweyd, ac y mae yn ddiammheu y dywed Dr. D'Aubigne y gweddill. Yma yr ydym yn cael fod Calvin wedi ymosod ar Servetus am ugain mlynedd cyn iddo ei ddal ef yn Geneva;—ei fod wedi ysgrifenu at Farel, pan y cynnygiodd Servetus rai blynyddoedd yn ddiweddarach fyned i Geneva i'w weled ef, "os daw ef, ac os bydd rhyw rym yn fy awdurdod, ni oddefaf iddo byth ddychwelyd yn fyw,"—ei fod wedi rhoddi rhestr o'i gyfeiliornadau i'r Chwil-lys ar sail y rhai y condemniwyd ef i farw fel heretic gan y corph hwnw; ac wedi i Servetus ddiangc o garchar a chymmeryd noddfa yn Geneva, ei fod wedi ei ddarganfod ef ei hun yn ei gynnulleidfa. Gwyddys yn dda y modd y darfu iddo ar ol hyny bregethu yn ei erbyn ef gan ei gondemnio; y modd y cynhyrfodd efe nwydau y bobl, ac y bu yn foddion i beri i'r llys ei gondemnio ef i farwolaeth. Yr unig gyhuddiad y gellir ei ryddhau ef oddiwrtho ydyw na ddarfu iddo orchymyn i Servetus gael ei losgi. Modd bynag, rhaid addef ei fod wedi dwyn gwarth ar grefydd a chwmmwl ar ei enw nas gall ei holl wasanaeth i Eglwys Crist ei ddileu.

Ymddengys fod Calvin, fel llawer o ddynion da ereill yr oes hono, yn meddu ffydd gref yn ngallu y gyfraith wladol i wneud pobl yn foesol a chrefyddol. Gan ei fod yn ben cyfundrefn ddwyflywiol, a neb yn ddigon cryf i'w wrthsefyll, pasiodd gyfreithiau yn nghylch bwyta, yfed, a gwisgo—gan ganlyn pobl o'r boreu tan nos, gan ddyweyd pa beth y dylent eu gwisgo, pa sawl dysgl y gallent eu cael ar y bwrdd, a pha faint o wallt a ddylid ei dori o gudynau prydferth merch ieuangc. Yn mhlith y cospedigaethau a gymmeradwyid ganddo am anufudd-dod a chyfeiliornadau, yr oedd dirywon, cyffion, carcharau, poenydiau, a marwolaeth. Beth yw y canlyniad o'r cwbl? Nid ydyw dilynwyr duwinyddol Calvin yn Geneva ond dyrnaid o bobl; y mae crefydd Servetus wedi ei gwaddoli gan y llywodraeth; nis gellir cael un ddinas wychach a mwy moethus, o'i maint, ar y ddaear; ac nid oes neb ar Gyfandir Ewrop yn bwyta ac yn gwisgo yn well na phobl Geneva—y ddinas lle y gwnaed y fath gyfreithiau llymion a phob math o foethau a rhwysg." C.

MYNYDD Y TRUENI.—GWELEDIGAETH.

Y RHAN GYNTAF.

Y MAE Horas yn dywedyd, fod yn esmwythach i ni ddwyn y croesau a'r blinderau dan ba rai yr ydym yn dioddef, na phe baem yn cyfnewid cyflwr gyd ag eraill.

Fel yr oeddwn yn myfyrio ar y testun uchod, wrth eistedd yn fy nghadair, myfi a syrthiais i gyntun yn ddiarwybod: yna yn ddisymwth tybiais ddarfod i Jou (Jupiter) osod allan gyhoeddiad, ar fod i bob dyn ddwyn ei flinderau, ei groesau, a'i anafau, a'u taflu i lawr yn garnedd: yr oedd gwastadedd ehang wedi ei bennodi i'r diben: myfi a gymmerais fy sefyllfa yn ei ganol, a chyda mawr hyfrydwch, gwelais yr holl genedl ddynol yn nesau, y naill ar ol y llall, gan fwrw i lawr eu hamrywiol feichiau, y rhai yn ebrwydd a gynhyddasant fel yn fynydd anferth.

Yr oedd yno dduwies deneudrem, ysgafnwedd, yr hon oedd yn draphrysur yn yr ymgyfarfod hwn, ac yn ei llaw yr oedd gwydr, yr hwn a ddangosai bethau bychain yn fawrion, yr oedd hi wedi ymdrwsio mewn gwisg hirllaes agored, yr hon a addurnasid gydâ lluniau amryw fwbachod a gwyllon; fel yr oedd ei gwisg yn ysgwyd yn y gwynt, yr oedd rhyw wylltineb a gorphwylldra yn ymddangos yn ei thremwedd. Enw hon ydoedd *Mympwy*, yr oedd hi yn arwain pob dyn marwol i'r lle pennodol, ac yn ei gynnorthwyo i newid ei faich. Fy nghalon a doddodd ynof wrth weled fy nghyd-greaduriaid yn ochain dan eu hamrywiol feichiau, ac wrth graffu ar grug anferth o flinderau dynol, yn gorwedd ger fy mron. Pa wedd bynnag, cefais fawr ddigrifwch yn yr achlysur hwn: creffais ar un dyn yn dwyn anferth geseilwrn, yn guddiedig dan hen fantell glytiog, ac ar ei waith yn ei bwrw i lawr deallais mai tlodi ydoedd; un arall, yn ol hir ymdagu ac ymddygnu, a daflodd i lawr ei freichlwyth, ac wrth ymholi o honof deallais mai ei wraig ydoedd.

Yr oedd yno dorf o gariadon, yn llwythog dan feichiau digrifol o saethau tanllyd cariad; a pheth oedd bur hynod, er eu bod yn ochain fel pe buasai eu calonau ar dorri dan y llwythi anesmwyth, etto ni allasent ymfoddloni i'w bwrw i'r garnedd; ond ar ol ychydig o ymegniadau llesg ysgwydasant eu penau, ac a aethant ymaith mor drwm-lwythog ag o'r blaen. Gwelais dorfeydd o hen wrageddos yn taflu i lawr eu crychni, a lluoedd o rai ieuainge yn ymddiosg oddiwrth eu melyn-groen: yr oedd yno anferth bentwr o drwynau cochion, gweflau tewion, a dannedd pydron; felly, mewn gwirionedd, synnais yn ddirfawr wrth weled fod y darn mwyaf o'r mynydd wedi cael ei wneuthur i fynu o hagrwch dynol. Wrth graffu ar un yn dwyn mwy cefnllwyth nâ chyffredin, deallais, ar ei ddynesiad, mai *cefn crwm* naturiol ydoedd, yr hwn a fwriodd i lawr gydâ llawenydd calon, ymysg y cynhulliad hwn o anafau dynol; yr oedd yno hefyd glefydau o bob math; etto ni fedrais lai na sylwi fod yno fwy o rai dychymygol nag o rai gwirioneddol: creffais ar un syrnyn bychan, yr hwn sydd gasgliad o'r holl anhwyldeb sydd yn perthyn i'r nattur ddynol, ag sydd yn cystuddio llawer o bobl ardderchog, gelwir ef yn *ysblin:* ond y peth a'm synnodd fwyaf, nid oedd yno un *bai* na *ffoledd* yn yr holl garnedd: meddyliais y cymmerasai pob un y cyfleusdra hwn i ymryddhau oddiwrth ei anwydau drwg, camsyniadau a gwendidau. Creffais yn neillduol ar un cydymaith afradlon, a thybiais ei fod yn dyfod yn llwythog o'i gamweddau; ond, wrth chwilio ei sypyn, deallais, yn lle taflu ei euogrwydd oddiwrtho, bwriasai ymaith ei gof: canlynwyd ef gan ddihiryn diffaith arall, yr hwn a daflodd ymaith ei wylder yn lle ei anwybodaeth. Yn ol i holl ddynolryw, fel hyn, fwrw i lawr eu beichiau, y dduwies, yr hon a fuasai yn dra phrysur ar yr achlysur, wrth fy ngweled yn edrychwr segur, a nesaodd attaf; ac yn ddisymmwth daliodd ei gwydr gyferbyn â'm wyneb: pan gyntaf y gwelais fy wynebpryd, dychrynais, wrth weled hyd anghymesur y gruddiau; hyn a wnaeth im' anfoddloni wrth fy wynebpryd; ac mi a'i teflais oddiwrthyf fel bwrw hug ymaith.

Digwyddasai yn bur lwyddiannus, fod un oedd yn sefyll gerllaw wedi taflu i lawr ei wynebpryd yntau; yr hwn oedd yn rhy hir iddo; yn wir, yr oedd o hyd cywilyddus: yr wyf yn coelio fod ei ên cyhyd a'm holl wyneb i: yr oedd cyfleusdra genym ein dau i wellhau ein hunain; a chan fod yr holl gasgliadau wedi eu bwrw i fewn, yr oedd rhyddid i bob dyn i newid ei flin-

derau ei hun am yr eiddo arall; eithr tarddodd cynnifer o ddamweiniau newyddion ar y rhan ddiweddaf o'm gweledigaeth, fel nad allaf yn hawdd eu gosod i lawr y tro yma; felly rhaid eu cadw hyd y cyfleusdra nesaf.

YR AIL RAN.

Yn fy mhapuryn blaenorol, rhoddais i'm darllenyddion olwg ar fynydd y trueni, yr hwn oedd wedi ei wneuthur i fynu o amrywiol flinderau sydd yn cystuddio meddyliau dynion; gydâ hyfrydwch anrhaethol, gwelais yr holl genedl fel hyn yn cael ei rhyddhau oddiwrth ei thristwch: peth rhyfedd, nid oedd un dyn marwol ymhlith yr holl dorf, wrth edrych o hono ar ddefnyddiau'r garnedd, y rhai a wrthodasid gan eu perchennogion, nad oedd yn meddwl fod yn eu plith rai bendithion a chysuron bywyd; ac aruthr meddwl, pa fodd yr oedd eu perchennogion yn eu cyfrif fel beichiau a blinderau.

Fel yr oeddwn yn craffu yn ddwys ar y gymmysgfa hon o drueni, Iou a roddes allan ail gyhoeddiad; sef, fod rhyddid i bob un newid ei gystudd, a dychwelyd i'w drigfan gydâ rhyw fath o sypyn arall.

Ar hyn, *Mympwy* a ddechreuodd ymbrysuro i ddosparthu yr holl garnedd gydâ phrysurdeb anghredadwy, gan bennodi i bob un ei sypyn neillduol: y cymmysgedd a'r ffwdan yn y cyfamser oedd anrhaethol; rhai ystyriaethau a luniais ar yr achlysur a ganlynant yma. Un henafgwr penwyn, yr hwn a fwriasai i lawr y gnofa, ac ar yr hwn yr oedd eisiau etifedd i'w 'stad, a gipiodd i fynu fab anufudd, yr hwn a fwriasid i'r garnedd gan ei dad digofus; ac yn ebrwydd yr ieuengyn diras a dynodd yr hen wr yn erbyn ei farf, a bu agos iddo guro ei fennydd allan: fel yr oedd y gwir dad yn neshau atto ef, dan boen y gnofa, efe a ddymunodd arno gymmeryd ei fab yn ol, ac adfer iddo'r gnofa; ond yr oedd pob un o honynt yn analluog i gilio oddiwrth y dewisiad a wnaethant.

Rhyw gaeth-was truan, yr hwn a fwriasai i lawr ei gadwynau, a gymmerodd i fynu y cryd-cymhalau yn eu lle; ond yr oedd ef yn gwneuthur y fath funudiau ar ei wyneb, fel yr oedd yn hawdd barnu, nad oedd ond ennillwr bychan ar y ffair.—Digrif ddigon oedd gweled y cyfnewidiadau a wnaed am glefyd yn lle tlodi, newyn yn lle ystumog wan, gofal yn lle gofid, &c.

Yr oedd y dorf fenywaidd yn brysur iawn yn newid tremmiadau ac ystumiau: yr oedd un yn ffeirio cydyn o wallt gwyn am ysnoden goch; un arall yn ffeirio gwasg byr am ysgwydd gron; a'r drydedd yn newid wyneb hagar am eirda wedi ei golli: ond nid oedd yr un o honynt heb feddwl fod yr anaf newydd, cyn gynted ag y deuai i'w rhan, yn llawer gwaeth nâ'r hen. Mi a sylwais yr un peth ymherthynas i bob anffawd neu flinder arall, yr hwn a ddygasai bob un yn y gynnulleidfa arno ei hun, yn lle'r peth a fwriasai i lawr: pa un ai bod yr holl flinderau sydd yn ein cyfarfod mewn rhyw fesur wedi eu haddasu at ein grym; neu, fod pob blinder yn dyfod yn esmwythach wrth ymgynefino ag ef, ni allaf farnu.

Ni allaswn lai nâ thosturio o'm calon dros y gwr bonheddig cefn-grwm, druan, yr hwn a grybwyllwyd o'r blaen; efe a aeth ymaith yn ddyn lluniaidd â'r garreg yn ei bledren; ac hefyd, y gwr bonheddig gwych a darawsai fargen gydag ef, a draws-lammodd ymaith trwy ganol llu o foneddigesau, y rhai a fyddent arferol o'i ganmol, gyda phar o ysgwyddau yn edrych dros ei ben. Ni ddylwn adael heibio fy nigwyddiad fy hun; cyn gynted ag y cym-

merodd fy nghyfaill ei wyneb hir i fynu, efe a wnaeth y fath ymddangosiad gwrthun ynddo fel na fedrais lai nâ chwerthin am ei ben, ac wrth hynny anffurfiais fy wyneb fy hun; yr oedd y pendefig, druan, mor deimladwy o'r gwawd, fel ag y deallais fod arno gywilydd oherwydd y peth a wnaethai; ar y llaw arall, gwelais nad oedd gennyf finnau un achos i lawenychu, oblegid fel yr oeddwn yn myned i gyffwrdd â'm talcen, cam-gymmerais y lle, ac a darawais fy mys ar fy ngwefus uchaf; heblaw hyny, oherwydd fod fy nhrwyn yn dra chribog, rhoddais iddo ddau neu dri o ddyrnodiau trymmion, a hynny wrth chwareu fy nwylaw o gylch fy wyneb, gan amcanu at ran arall o hono. Gwelais ddau o foneddigion eraill gerllaw, y rhai hyn oeddynt yn yr un amgylchiadau trwstan, oherwydd iddynt wneuthur ffair ffol; un ydoedd esgeirgam, a'r llall yn goesfain; un oedd yn ymddangos fel yn cerdded ar briciau edafedd, a'r llall yn rhoddi y fath gamrau amrosgo, fel braidd y gwyddai ef pa fodd i ymsymmud ar ei gynnal-ffyn newyddion; a chan sylwi ei fod yn gydymaith ysmala, myfi a blenais fy ffon yn y ddaear, ac a ddywedais wrtho, Y daliwn am ystenaid o fêdd, na ymlusgai ef tuag atti, ar hyd llinell union, mewn pymtheng munud. O'r diwedd y garnedd a ddosparthwyd rhwng y ddwy genhedl, y rhai oeddynt yn gwneuthur yr olwg fwyaf truenus wrth gerdded i fynu ac i lawr dan drwm-bwys eu beichiau; yr holl wastadedd a lanwyd gydâ chwynion, och'neidiau, a griddfanau. O'r diwedd Iou a dosturiodd wrth y marwolion truain, ac a orchymynodd iddynt eilwaith fwrw i lawr eu llwythau, gydâ bwriad o roddi i bob un ei eiddo ei hun yn ol.

Dilwythasant eu hunain gyda mawr hyfrydwch; yn ol hynny archwyd i'r dduwies, yr hon a'u harweiniasai i'r fath dwyll ofnadwy, ddiflannu neu gilio o'r golwg: anfonwyd yn ei lle dduwies o osgedd wrthwyneb iddi: ei hysgogiadau oeddynt wastad a thawelaidd; ei hwynebpryd yn ddifrif, ond etto yn siriol; yn awr ac yn y man dyrchafai ei golygon tua'r nef, a syllai ar Iou (enw hon ydoedd *Dioddefgarwch*) cyn gynted ag y cyfleodd ei hun wrth fynydd y tristwch; yr holl garnedd a suddodd i'r fath radd, fel nad ymddangosodd y drydedd ran o'u maintioli o'r blaen: yn ol hynny hi a adferodd i bob un ei flinder neillduol ei hun, gan ddysgu iddo y ffordd esmwythaf i gyd-ddwyn ag ef; felly pob un a aeth ymaith yn llawen, am na adawsid ef i'w ddewisiad ei hun.

Heblaw'r amryw ystyriaethau moesol a ellir gasglu oddiwrth y weledigaeth hon, mi a ddysgais beidio grwgnach dan fy nghroes fy hun, na chenfigenu wrth lwyddiant a dedwyddwch un arall; oblegid y mae'n amhossibl i un dyn lunio iawn farn am gystudd ei gymmydog; oherwydd yr un rheswm, yr wyf yn amcanu, trwy gymmorth, ochelyd meddwl yn rhy ysgafn o gwynion un arall, ond yn wastadol ystyried tristwch fy nghyd-greadur gyda thynerwch a thosturi.—*Cylchgrawn*, 1793.

GWERSI BYRION.

Y mae i bob crefydd berthynas â bywyd, a bywyd crefydd yw gwneuthur daioni.

Y mae bywyd o dduwioldeb heb fywyd o ddefnyddioldeb i ddyn yn anhawdd, ac y mae yn arwain ymaith *oddiwrth* y nefoedd gymmaint ag y tybir yn gyffredin ei fod yn arwain *tua'r* nefoedd.

Yn y byd ysbrydol, i'r hwn y mae dyn yn dyfod wedi marw, ni ofynir beth fu eich ffydd chwi, neu beth eich athrawiaeth, ond *pa beth a fu eich bywyd?*—SWEDENBORG.

DAMMEG Y GWR AR LYGODEN.—(*Iolo MSS.*)

Gwr bonheddig Aberthog yn rhodio'r Meusydd brydnawngwaith gwlyboer o Ragfyr, a ganfu wr o gloddiwr dan wasgawd y clawdd yn bwytta bara haidd sych dienllyn ac yn yfed dwr o'r pyllwyn ger ei law, gan gwynaw a gwedyd. "Gwae fi! dyma fyd gwael arnaf, yn gorfod gweithio'n galed ar ymborth na'm ceidw ond o fraidd yn fyw, a llai na digon o honaw, tra fo fy meistr yn byw'n fras ac yn segur, a minnau'n cael dim gwell na hynn a gweithio'n galed am dano, ac arno ef nid oes na gwaith na gorchwyl." a chyda hynny y gwr bonheddig yr hwn oedd ei feistr a ymddangoses iddo. beth ebe fe a fynnit. "byw ychydig well nag yr wyf" ebe'r gwr. pei cait fyw ar yr un ymborth a'th feistr, ebe'r gwr bonheddig, ai ymfoddlonit ti i hynny heb chwennych amgen, gan weled dy ddigon; gwnawn yn llawen ebe'r gwr, ac ar lawer llai na hynny boddloni a wnawn, a wneit ti ei orchymyn os hawdd a dilafur y byddai, ebe'r gwr bonheddig, gwnawn ebe'r gwr yn llawen a chyda pob ufudddod a chariad a gofal. or goreu ebe'r gwr bonheddig, dere gyda mi, mi yw dy feistr, a chystal y cei di'th fyd ac y mae arnaf finnau. myned eill dau hyd y plas a wnaethant, ac yno y dangoses y gwr bonheddig iddo ystafell mor wych ar gwychaf yn y plas ac ynddi wely o fanblu alarchod o fewn i babell sidanwysg oreuraid ac ar y gwely y meinaf a liain ar rhywioccaf o wlan yn ganheidliw harddwych a Hyl oreuraidwaith nodwyddgrefft ar y cyfan. ac yn yr ystafell pob costus o ddodrefn a phob tacclusder ardderchowgwych. yn ddiddan i'r olwg ac yn drefnusdeg at bob achos a ddymunid. gwedi hynny rhoi am dano'r gwychaf ar costusaf o bob gwisgoedd bonheddigaidd hyd nad oedd gwychder a ellid ei ddychymyg nas gwelsid yn ei gylch. yn ol hynny dodi gweision a morwynion esgudlym ufuddbarch llawgywraint i weini iddaw ar frys y peth a ddymunai. Yna gosod bord gostuswaith ac arni liain weithiedig ag addail arianaid ag euraid a sidanaid. ac ar hynny y goreuon ar moethusaf o bob bwydydd a diodydd, yn anifeiliaid ac adar a physg a phob miodfwyd blasusber, a phob ffrwythau coed, a phob gwin a medd a chwrw a bragod, ac ymhlith y dysgleidiau un dysgl gwarcharedig, Ebe'r gwr bonheddig wrth y gwr, hyn oll y sydd itti a chymer o honynt dy wala hyd eitha, a llyma'r gweision ar morwynion a ddug itti ychwaneg y pryd y bot yn chwennych. eithr yr hynn a rodded yn y ddysgl gwarcharedig fy rhan innau o'r wledd y sydd ynddi, ac nid cennhadedig itti gyffwrdd a'r ddysglaid honno nac ymdawr o honi na chymaint ac edrych ar y sydd ynddi. Ufudd a llwyr ufudd iih arch ath orchymyn, ac felly y bu dros ychydig ddyddiau. eithr ar un diwarnod gwedi ymginiawa yn foethus daeth chwant ar y gwr wybod pa ddanteithfwyd goreuryw oedd yn y ddysgl gwarcharedig, a thra'r aethant y gweinyddiaid o'r ystafell codi'r gwarchar a wnaeth y gwr, a buan y llemmis allan lygoden ac amgen na honno nid oedd yn y ddysgl ronyn o ddim yn y byd. Yna y gweles y gwr ynfytted ei drachwant ai orchwilgarwch, ac ni wyddai gan ofid calon beth a wnelai. a gwedi dwyn ymaith yr arlwy y cafas y gwr bonheddig y lygoden ar goll. a danfon am y gwr a goleddasai atto a wnaeth, Gwel ebe'r gwr bonheddig pa beth a ddaw o drachwant a thrachwilgarwch tuhwnt i'r hynn a'th dorai. a nid digon o bob peth wrth fodd dy galon oedd genyt. ai mawr o boen oedd itti gadw yr un gorchymyn hynaws a roddais arnad a gwneuthur yr arch geisiais yn garedig gennyt yn dal am y cyfan a roddais itti? eithr ynawr am nas gwnaethost dos ynol ir clawdd o ba le a'th gymerais a bydd

foddlon neu anfoddlon fal y gallot ir hynn a ddyly'th lafur a'th orchwyl yno, ni chai yn hwy aros yma. ac ir clawdd y gorfu arno ddychwelyd. ac yno y deallodd ei ynfydrwydd ac a weles mai gwir y ddiareb gormodd o esmwythder sydd annodd ei drin—a cos din taeog ac efe a dâl it' yn dy ddwrn. a, pa fwyaf a geffir mwyaf i gyd a geisir. a ni wel y trachwant fyth ai ddigon, ac ni wŷl y trachwant fyth ei fai onis tyrr ei weddwg fal y bu i'r gwr a'r lygoden. a, Trachwant a dyrr asgwrn ei gefn ei hun, ac, anfoddlon y bydd anfoddlon er maint a gaffo. yn ail i'r gwr ar lygoden. ac nid esmwyth trachwilgar oni wyppo liw mhennydd tin ci. a, Trachwant a fydd trachwant er maint y rhodder yn ei safn. a ni ymfoddlonir i'r corph oni cheir y coludd, nac i hynny onis ceir a fo yn y coludd a phan weler a fo hynny mwy fyth yr anfoddlondeb. gan ddiwyno'r dwylaw a fuassai heb gael hynny yn lân, felly y gwnaeth y gwr a ollyngwys yn rydd y lygoden.—*I. MSS.*, tud. 159.

MEINDIWCH EICH STOPS.

WRTH drafaelu gydâ'r *trains* fel ymhob man arall, ceir gweled dynion yn dangos eu gwahanol hoffderau mewn gwahanol ffyrdd. Hoffder rhai yw taer-syllu ar wahanol agweddau y wlad yr ehedant trwyddi—ar y gweirydd yn cael eu hysgubo o'r cauau, y llafuriau yn melynu i'r cynhauaf, y coed yn plygu dan eu ffrwythau; ar y defaid a'u hŵyn yn llàmu gan lawenydd ar fryn neu ddôl, a'r ychain yn pori 'n dawel, heb wneud cymmaint a sylw ar ysgrêch aflafar yr *engine* na chwit y wenol yn ysgubo heibio iddynt. Y mae un yn foddlon ond cael cyfaill serchog i ymddiddan ag ef. Y mae'n rhaid i un arall i gael gafael yn y papur newydd, y *papur heddyw*, er cael gwybod sut y mae Grant a Lee yn sefyll yn bresennol, neu sut y mae'r Daniaid a'r Prussiaid yn myned yn y blaen a'u gwaith afian; pa arwyddion am heddwch sydd rhyngddynt. Ni foddlonir un arall heb gael llyfr o'r *Railway Library, last novel* Bulwer neu Dickens feallai. Ond wedi cael hwnw, dyna fe dros ei ben a'i glustiau. Ni waeth beth fyddo'r sŵn o amgylch, y mae efe yn sicr o fod yn y Mor Tawel. Y mae ereill etto yn edrych mwy at ddefnyddioldeb, nid oes ganddynt hwy ddim amser i'w wastraffu, ac wele y maent yn edrych (yn iaith Cymry'r Eisteddfodau) dros eu *cyfrifon*, &c. erbyn mynd i gyfarfod â'u *cwsmeriaid*. (Dyna'r gair, onid ê?) Ond dacw un fan draw â llyfryn bach â chyfors coch am dano yn ei law, ond nid yw yn ymddangos fel pe byddai arno ryw arwydd mawr am ei ddarllen. Y mae llythyrenau brâs mawr ar y tu allan iddo yn dywedyd beth ydyw—MIND YOUR STOPS. Y mae rhyw beth yn dra tharawiadol yn yr enw. Digon tebyg mai traethawd ar attalnodiad yw; peth pwysig ddigon yn ei ffordd, a pheth sydd yn cael ei esgeuluso yn rhy gyffredin. Ond y mae'r teitl fel pe byddai am awgrymu rhagor na hyny: y mae ynddo rhyw swn rhybuddiol. "*Mind your stops.*" Nid buan yr anghofir peth a gaffo argraph ddwfn ar y meddwl. *Mind your stops*—os oes rhybudd ynddo, y mae yn bwysig i bawb i wrando arno. Y mae *stops* gan bawb i'w cadw, ac y mae o bwys fod pawb yn cadw eu *stops* yn briodol. Y mae yn neillduol bwysig i'r ieuengctyd i roddi clust o ymwrandawiad i'r rhybudd pwysig. Pan fyddo brawd neu chwaer ieuangc yn dechreu myned allan i'r byd dylent hwy yn anad neb fod ar eu gwyliadwriaeth am eu *stops*. Y maent hyd yn hyn fe ddichon wedi byw mewn purdeb a diniweidrwydd. A allant hwy bellach wedi myned allan i'r byd ymgadw yn lân oddi wrtho?

> "Mae'n anhawdd iawn, er llwyr ymroi,
> I'r lili droi mewn drain
> Heb lawer gwaith gael llygru ei gwedd
> A'i rhinwedd gan y rhai'n."

Y mae cymmaint o berygl i *stopio* lle na ddylid, a pheidio lle y dylid. Ac y mae ieuengctyd yn neillduol yn agored i'r perygl hwn, am fod eu profiad o'r byd mor gyfyngedig. Y mae eu gwybodaeth mor lleied am ei dwyll a'i hoced, ei hudoliaeth

a'i amrywiol demtasiynau, fel y maent yn agored iawn i lithro yn ddiarwybod. Fe welir yn amlwg ynte mor angenrheidiol yw gwybod y *stops*. Y peth goreu i bawb fyddai cael rheolau yn wastad wrth law i'w galluogi i'w cadw; byddai hyny yn help mawr iddynt. Er cael rheolau, byddai'n ddoethineb i bob un i ffurfio rhai i atteb ei amgylchiadau neillduol ei hun, pan fyddo hamdden yn rhoi. Gallant fod yn gynnorthwy mawr iddo yn amser profedigaeth. I'r ifangc dibrofiad y cynnygiwn yr ychydig gyfarwyddiadau canlynol; y rhai a renir genym i ddau ddosparth—yn gyntaf, rhai nacaol, lle na ddylid stopio—yn ail, rhai cadarnhaol, lle y dylid stopio.

Ni ddylid stopio ond yn y gorsafau (y *stations*) priodol. Yno yn unig y mae y *train* yn stopio. Anfynych iawn y gwelir y *train* yn stopio ond yn y manau appwyntiedig, a phan digwyddo stopio mewn man arall y mae rhywbeth yn debyg iawn o fod allan o le. Y mae gorsafau priodol hefyd ar gledr-ffordd bywyd, ac nid yw yn ddiogel i ni i stopio yn un man ond yn y gorsafau hyny. Am hyny *mind your stops.* Ffurfiwch stopfa eich hunan, lle bynag, yn eich oriau sobr ac ystyriol y gwelwch angen. Peidiwch ymddiried gormod, yn ddall i'r stopfäau sydd wedi eu sefydlu gan ereill. Pan weloch un o'r cyfryw sefydliadau, gofynwch i chwi eich hunan, pa un mwy, hunan-les, ai ynte lles y cyffredin sy mewn golwg ganddynt?—*Ni ddylid stopio wrth y tŷ tafarn.* Ië, paid frawd, paid chwaer, paid ar dy berygl, a stopio yno. Y mae lle cysurus iawn yn ymddangos yno fe ddichon. Y mae llawenydd fe allai yn eistedd yno megys ar ei orsedd. Y mae sŵn y delyn a'r dawns fe allai yn hyfryd iawn i'th glust, ac arogl y gwirodydd i'th ffroenau—y cyfan yn ddeniadol iawn. Ffo, ffo oddiwrthynt os myni ddiogelwch. Yn fuan trŷ'r cysur yn anghysur, y llawenydd yn dristwch, a sŵn y delyn a'r dawns yn sŵn rhegfeydd ac ymladd a meddwdod. Paid gwneud y dafarn yn orsaf.—*Ni ddylid stopio* wrth y *gambling-house.* Ymgadw ymhell ymhell rhag yr holl laid aflan. Na ddôs i'w cynteddau, rhag i ti syrthio i'w maglau a methu dyfod allan. Os byddant yn canmol, yn gwenieithio, cofia chwedl y corryn a'r gylionen, cofia ddiwedd y gylionen. Drwg ydyw gamblo yn ei holl agweddau, ac y mae yn barhaus yn arwain o ddrwg i waeth. Caraswn weled Cymru mor amddifad o *gamblers* ag ydyw yr Iaith Gymraeg o air am *gamblo*; ond, och fi! y mae'r gwaith fileinig mewn bri ac yn myned ar gynnydd o hyd. Mewn cilfachau dirgel, distaw, anial, mor bell ag y gellir o olwg y *police*, y mae gwŷr y *pitch and toss*, ar y ffordd fawr lydan sydd yn arwain i drueni a distryw. Os gweli hwynt, ymgadw rhagddynt, rhag i *ti* gael dy wneud hefyd yn un o honynt. Cadw oddiwrth y bwl a'r naw-pin—oddiwrth y cardiau, y *billiards*, &c.,—oddiwrth y rhai sydd yn bleidiol iddynt: drwg ydynt i gyd, ac nis gallant lai na dy ddrygu dithau, os rhoddi dy law iddynt. Ennill, ennill—ïe dywed, dywed betfi *yw'r* ennill? Nid oes genyt ti ddim sicrwydd y bydd e'n ddim. Ond beth am y golled?—dy ddedwyddwch, dy barch a'th anrhydedd, dy enaid! O ieuengctyd, pwyllwch, ystyriwch! Y mae y *risk* yn sicr yn ormod. Y mae cysur eich bywyd mewn perygl. Peidiwch er dim ynte a gwneud y *gambling-house* yn un o orsafau eich bywyd.—*Ni ddylid stopio* allan ar oriau anamserol. Y mae amser i bob peth, meddai'r gwr doeth, ac yn ddiammheu y mae ei amser i bob peth da. O Gymru! dysg amseroldeb i'th blant, dysg hwynt i fod yn amserol yn eu holl ymdrafodaeth, dysg hwynt i osod mwy o werth ar ddiweirdeb. Paham y mae genyt gymmaint o fastarddiaid ac o hanner-bastarddiaid o fewn i'th gynteddau, i iselhau dy foesoldeb ac i lygru dy enw da? Pam?—ond nad ydwyt ti ddim wedi cymmeryd digon o drafferth i ddysgu amseroldeb—i ddysgu'r *stops* i'th blant. O Rinwedd, och fel y'th ammherchir!—*Ni ddylid stopio* gydâ'r annuwiol a'r halogedig. Nid yw y rhai hyn yn gwmniaeth i wella ond i waethygu dyn. "*Like begets like,*" meddai'r Sais, ac am fod 'tebyg yn creu tebyg,' ni ddylai'r ifangc ar un telerau yn y byd ymgymmysg â'r dosparth yma, rhag iddo gael ei lygru. Y mae dyn yn cael ei adnabod wrth ei gyfeillion. "Adar o'r unlliw ehedant i'r unlle." "Dywedwch i mi gymmeriad eich cyfeillion, dywedaf finnau eich cymmeriad chwithau." Y mae tueddiad yn y rhai a berthynant o'r un dosparth i ymdebygoli i'w gilydd. Nid yw y dyn ifangc yn teimlo ei hunan gartref ymhlith annuwiolion y tro cyntaf y mae'n myned i'w cyfarfod. Na, y mae yn teimlo rhyw euogrwydd arno. Y mae yn edrych i'r deheu ac i'r aswy—a oes rhyw un yn ei weled? Y mae rhyw anesmwythder rhyfedd yn ei gydwybod. Ond yr ail

dro y mae yn myned yn rhwyddach, a'r trydydd yn rhwyddach etto, &c. Y mae yn dod yn rhwydd ddigon yn y diwedd. Ond yn raddol y mae hyny yn cymmeryd lle. Fel hyn meddai'r Salmydd :—Rhodio—Sefyll—Eistedd, gyda'r Annuwiolion—y Pechaduriaid—y Gwatwarwyr.

1. Rhodio yng nghynghor yr annuwiolion.
2. Sefyll yn ffyrdd pechaduriaid.
3. Eistedd yn eisteddfa'r gwatwarwyr.

Ieuengctyd anwyl! edrychwch i ba le yr ydych yn myned. Gwyliwch ar eich dau troed rhag eich bod ar y llwybr sydd yn arwain i golledigaeth. Nawr yw'r amser i droi yn ol os ydych. Mewn amser *meindiwch eich stops.*

(I'w barhau.) NOMATT E. RHW.

NA DDOS I DDYLED.—*(O'r Methodist.)*

NA ddos i ddyled, oblegid drwy hyny nid ei di i brofedigaeth dy hun, na neb arall i brofedigaeth o'th achos ; a chei lawer o gysur a thawelwch meddwl ar y *fargain.*

Na ddos i ddyled, rhag i ti fethu talu. Dichon i rywbeth ddyfod i'th gyfarfod i rwystro i ti dalu, na wyddost ti ddim yn y byd am dano ; ac ni wna bwriad da ddigolledu dy ofynwr. Gelli fod yn sicr na wnei golled na phoen i neb drwy fod yn ddiddyled.

Na ddos i ddyled, er mwyn dy gymeriad. Yr wyf fel pe bawn yn clywed rhyw sŵn isel a dirmygus yn yr ymadrodd "bod mewn dyled." Peth annifyr ac anhyfryd iawn i deimlad dyn rhinweddol a boneddigaidd, yw teithio yn yr un cerbyd a dynion anhywaith a drygionus. Wel, ddarllenydd, os ydwyt mewn dyled, yr ydwyt yn yr un cerbyd â miloedd o'r dynion gwaethaf ar y ddaear ; ac y mae canlyn cyfeillion drwg yn gefnogaeth i ddrygioni.

Na ddos i ddyled, er i ti drwy hyny ddyoddef anghyfleusdra. Os nad oes genyt fodd i gael dillad newydd heb arogl inc arnynt, bydd foddlawn ar yr hen rai hyd nes y cei fodd i dalu am danynt wrth eu cael. Os nad oes genyt fodd i dalu am *watch* wrth ei chael, anrhydeddusach yw i ti aros heb yr un hyd nes y cei fodd. Os na elli dalu ardreth am dŷ gwych, bydd foddlawn ar un gwael. Os nad oes genyt fodd i dalu am gig a phytatws, bydd fyw ar fara a dwfr, a chydwybod dda. Gwell i ti ddyoddef eisieu na gwneyd anghyfiawnder ; gwell i ti golli dy gysur na cholli dy gymeriad. Mae tlodi gonest yn gan' mil gwell na chyfoeth anonest. Pe byddit can dloted a Job, fel y dywedir, ni byddai hyny yn un rhwystr i ti fyned i'r nefoedd ; ond os ydwyt "anghyfiawn yn y lleiaf," dichon i hyny dy gau allan o'r wlad lle y mae "cyfiawnder yn cartrefu." Pa faint bynag o anghyfleusdra a ddyoddefir wrth rodio ar hyd canol llwybr dyledswydd, fe geir digon o gysur gan y gydwybod, i dalu yn dda am y cwbl.

Na ddos i ddyled, rhag i neb ofyn i ti dalu pryd na byddo genyt fodd. Peth anhyfryd iawn i deimlad dyn gonest, yw clywed un yn gofyn tâl, a chanddo yntau ar y pryd, ddim modd i dalu. Pâr hyn, yn gyffredin, boen i'r dyledwr, a siomedigaeth i'r coeliwr.

Na ddos i ddyled, os ydwyt yn hoffi cael byw yn dy dŷ, a cherdded yr heolydd heb ofn. Mae ar y dyledwr yn aml ofn clywed neb yn agor drws ei dy, rhag mai ei ofynwr fydd yno, neu *feili* yn dyfod a *notice* o'r *court* iddo. Dychymyga ei fod yn gweled ei ofynwyr yn mhob cynnulleidfa a chyfeillach, ac ofna gerdded yr heolydd, rhag iddynt ddyfod i'w gyfarfod.

Na ddos i ddyled, rhag i ti gefnogi arferiad sydd yn achlysuro peth anferth o anghyfiawnder yn y wlad. Mae yr arferiad o brynu eiddo ar goel yn rhoddi cyfleusdra i filoedd o bobl ddiegwyddor i wneuthur dirfawr anghyfiawnder. Clywais fasnachydd parchus sydd yn preswylio yn agos i un o chwareli mawrion sir Gaernarfou, yn dweyd fod ganddo dros wyth gant o bunnoedd o ddyledion allan ; ac mai gobaith gwan oedd ganddo am gael y rhan fwyaf o honynt. Yn awr, os na thelir yr arian yma, y mae yn rhaid fod rhifedi mawr o bobl anghyfiawn yn rhywle ; ac attolwg, yn mha le y ceir hyd iddynt ? Mae arnaf ofn y ceir hyd i ugeiniau o honynt

yn yr eglwysi, ac wrth fwrdd y cymun, yn y gwahanol gapeli. Yn wir, y mae lle i ofni fod cannoedd o grefyddwyr yn y dyddiau hyn, yn dra diofal am dalu eu ffordd; ac os ä yr eglwysi yn ddifater am onestrwydd, ni ellir dysgwyl llwyddiant ar grefydd. Cofier, mai ofer yw crefydd heb onestrwydd.

Na ddos i ddyled, rhag ofn i ti farw cyn talu. Os wyt ti yn ewyllysio myned i'r bedd heb fod yn nyled neb o un ffyrling, cofia, nad oes un ffordd sicr ac anffaeledig i ti gael dy ddymuniad yn hyn, ond trwy dalu am bob peth wrth ei gael.

Yn awr, ni a roddwn air o gynghor i'r dyledog a'r diddyled.

Y rhai sydd wedi myned i ddyled, gwneweh bob brys ac ymdrech i ddyfod o hono. Dylech gofio, tra yr ydych mewn dyled, eich bod mewn math o gaethiwed; ac y mae yn werth i chwi ymegnïo, llafurio, a chynnilo, i ennill rhyddhad cyfreithlawn. Os oes gennych egwyddor onest, dangoswch hyny trwy ymegnio i dalu y cwbl sydd arnoch. Dichon i'ch dyled fyned yn "rhy hen" i lysoedd y ddaear allu eich gorfodi i'w thalu; ond cofiwch, nid ä byth yn rhy hen yn llys y nefoedd. Os oes genych fodd i dalu, ofer i chwi ddysgwyl nefoedd heb dalu; ac os ydych yn dduwioi, yr ydych yn sicr o ymdrechu yn egnïol a gonest i gael modd i dalu. Mae sefyllfa y dyn dyledog yn un gas, annymunol, ac anghysurus. Mae yn gyffredin yn wrthddrych sylw a siarad y gymydogaeth y mae yn byw ynddi. Os gwelir gwisg dda am dano, edliwir ei fod heb dalu am dani; os gwelir ef yn byw yn fras, cofir yn union am ei ddyled. Os dygwydd iddo ddigio ei gymydog, edliwir ei ddyled iddo yn y fan; a chan mai ar craill y mae yn byw, ac nid arno ei hun, y mae gan craill, yn enwedig y neb y mae efe yn byw arnynt, hawl i siarad am dano, ac i wylio ei symudiadau. Gan hyny, er mwyn eich cymeriad a'ch cysur eich hun, byddwch yn ddiddyled.

Y rhai sydd yn ddiddyled, peidiwch a gadael i ddim eich hudo iddi. Cofiwch fod dyled yn garchar hawdd myned iddo, ac anhawdd dyfod o hono; a gwell ar bob cyfrif i bawb ymgadw rhagddo. Trwy arfer pob diwydrwydd, doethineb, a chynnildeb, fe all pawb fod yn ddiddyled. Yn y cyffredin, y mae pawb sydd yn ceisio byw yn ddiddyled, yn gallu gwneyd hyny; ac y maent braidd bob amser hefyd, yn byw yn fwy cysurus na'r rhai sydd yn hoff o brynu eiddo ar goel, a rhedeg i ddyled.

ELACHISTOTEROS.

THEODORE PARKER*

LLYTHYR V.

YR hyn a fynai Cymdeithasfa Undodaidd Boston i Mr. Parker wneyd oedd ymwahanu oddiwrthynt o hono ei hun. Trwy wrthod cyfnewid pwlpidau âg ef, trwy ledu y son am dano fel arch-heretic peryglus, trwy eu beirniadaeth gul ar ei bregeth, ei lyfr, a chanol swn cyffredin ei weinidogaeth, ac yn y diwedd trwy orfodi Mr. Sarjent, cenadwr ym mhlith tlodion ac anffodusion Boston, ac aelod o'r Gymdeithasfa, i roi ei swydd i fynu am y cyfnewidiai bwlpid yn achlysurol â Mr. Parker, gwnaethant hi yn fater lled boeth iddo i aros yn y Gymdeithasfa. Dywedai yntau nad ymwahanai ef byth oddiwrthynt o hono ei hun, ond os y beiddient hwy ei dori allan y gallent wneyd hyny mewn mynud trwy eu pleidleisiau. Ni wnelai achwyn am hyny. Ond cyhyd ag y safai'r byd nas gwnai ef fyned allan, a hyny yn unig am y golygai fod hawliau cydwybod yn y dafol. Pan ddarfu iddo ymuno â hwynt ni ofynasant am ei gredo; nid oedd ef erioed wedi ymrwymo fel amod ei aelodiaeth i gredu yr un peth â hwy; a pheth arall, hònai na wnaent hwy eu hunain gydfarnu â'u gilydd yng nghylch llawer o bethau. Atebent hwythau am y gwahaniaethau rhyngddynt *hwy* mai gwahaniaethau o *fewn* i

* *Life and Correspondence of Theodore Parker, Minister of the 28th Congregational Society, Boston. By John Weiss, in 2 vols*, 1863.

gylch Crist'nogaeth oeddynt, ond ei fod ef wedi dodi ei hun y tu allan i ymylon eithaf y cylch hwn. Yn haf 1843, ymddangosodd ei gyfieithiad o "Arweiniad De Wette i'r Hen Destament." Dechreuasai ei gyfieithu ym Mai, 1836, gan ei orphen ym mhen y flwyddyn. Ond gwnaeth lawer rhagor na'i gyfieithu yn unig, a bu yn llafurio wrtho pan gai hamdden am saith mlynedd. Er dangos pa mor drwyadl y cyflawnodd ei waith, digon yw dweyd ddarfod iddo heblaw darllen a meistroli y llyfr gwreiddiol yn y lle cyntaf, ac yna ei gyfieithu, iddo hefyd ddarllen pob arweiniad blaenorol i'r Hen Destament o Simon i lawr i Hengstenberg, a darllen yr holl ysgrifenwyr Crist'nogol bore (y Tadau, &c.) a drafodent y mater o Jerome i Augustine, ynghyd a'r holl weithiau diweddar. Ychwanegodd nodiadau o ysgrifeniadau gwahanol awdwyr, a thraethodau ar destynau neillduol o'r eiddo ei hun, a chyfnewidiodd ryw gymaint ar drefn a dosparthiad y llyfr nes gwneyd y cyfieithiad yn fwy cyfleus na'r gwreiddiol i droi iddo. Ei amcan oedd gwneyd y cyfieithiad mor ddealladwy a gwasanaethgar i'r darllenydd cyffredin yn y iaith Saesneg ag oedd y llyfr gwreiddiol i ddarllenwyr dysgedig. Gwasanaeth gwerthfawr i lenyddiaeth Feiblaidd oedd hwn. Yr oedd y gwaith wedi ei seilio ar y ddysgeidiaeth ddiweddaraf. Triniai yr Hen Destament ar dir beirniadaeth hanesiol ac yn annibynol ar unrhyw blaid dduwinyddol. Traethai ar gyfansoddiad yr Hen Destament, ar y canon, ar y cynysgrifau *(documents)* Jehovistaidd ac Elohistaidd, ynghyd ag amcan y gwahanol lyfrau. Y mae helaethrwydd o wybodaeth dra angenrheidiol wedi ei chasglu at eu gilydd yn y ddwy gyfrol hyn. Barnai Mr. Parker fod "Arweiniad" De Wette i'r Hen Destament, yr un mwyaf dysgedig a manylgraff a beirniadol a wnaed erioed mewn unrhyw iaith. Cynwysa y casgliadau yr oeddid wedi cyrhaedd iddynt i fynu hyd at yr amser hwnw. Nid yw'r maes wedi ei adael heb ei lafurio oddiar hyny hyd yn awr; ond nis gwn i fod un gwaith a gyhoeddwyd yn y cyfamser wedi hollol gymeryd lle 'Arweiniad' De Wette.

Yn Hydref, 1843, cafodd Mr. Parker brofiad chwerw o wirionedd yr hen air: 'darllen llawer sydd flinder i'r enawd.' Yr oedd llafur caled a phryder meddwl y blynyddau diweddaf wedi agos ddiyspyddu ei holl nerth. Byth ni roddai seibiant iddo ei hun tra y parai'r natur ei ddala; ac yn dra mynych yn ddiweddar ymollyngasai ei iechyd i'r fath raddau fel yr oedd ar lawer adeg yn llwyr analluog i wneyd dim. Felly, yn unol âg anogaeth ei gyfeillion, ac ar draul personol un o honynt, penderfynodd i adael ei gynnulleidfa a'i holl ofalon craill am flwyddyn i deithio yn Europe, cynllun ag oedd wedi ei hir fwriadu a'i fynwesu. Y Sabbath cyn ei ymadawiad, traddododd bregeth nerthol a thoddedig iawn cymhwys i'r achlysur, yn diweddu fel hyn: "Yr ydym wedi bod yma yn ymdrafod â'r testunau uwchaf; am chwech mlynedd mae ein gweddiau yn ymgymysgu ynghyd. Yr ydym wedi bod yn ymgynnull yma er coffadwriaeth agosach am un ag sydd mor anwyl i'n calon ni, ac i galon yr holl fyd. Bydd i'r adgof am y muriau syml hyn, am y gwynebau cynnefin hyn, tra yn dwyn dagrau i fy llygaid, i ddwyn dim llai llawenydd i fy nghalon. Boed i Dduw eich bendithio a'ch cadw, a dyrchu arnoch o lewyrch ei wynebpryd; boed i reswm eich tywys; boed i grefydd fod eich bywyd beunyddiol, eich gobaith a'ch rhan yn oes oesoedd. Ffarwel!"

Pan y glaniodd yn Lerpwl ac y ceisiwyd ganddo i bregethu, atebodd gydag edrychiad gofidus: "A ydych chwi yn hollol hyspys beth wyf, a pha fodd yr edrychir arnaf gan fy mrodyr gartref?" Pan sicrhawyd iddo fod

pob peth yn ei gylch yn adnabyddus yn y wlad hon, ei saffe, ei ysgrifeniadau, ei driniaeth ar law ei frodyr, newidiodd ei wedd ar unwaith, a siriolodd ei lygad glas treiddgar. A phregethu a wnaeth, mor syml, mor gyffrous, gyda'r fath ysprydolrwydd a phrydferthwch, fel y gwnaeth un o wrandawyr henaf, mwyaf arafaidd *(staid)* y gynulleidfa y sylw ar ddiwedd y cwrdd: 'Mae ef yna yn ddyn defosiynol.' Cwrddodd â'r Prof. F. W. Newman, ac aeth yn ymgom wresog rhyngddynt yng nghylch Plato ac Aristotle. Yn ei lesgedd yr oedd ei feddwl mor fywiog, ei awch am wybodaeth mor finiog ag erioed. Achubai bob cyfleusdra i ychwanegu at ei ystorfeydd o wybodaeth, pa le bynag yr elai, a phwy bynag a gwrddai; ac ym mhob man ar ei deithiau ymwelai â'r lleoedd penaf ac â'r dynion enwocaf a mwyaf dysgedig. Aiff i'r *Bodleian Library* yn Rhydychain i ddarllen rhyw lyfrau nad oeddynt i'w cael yn America. Pan wel hen lyfr o waith Scotus Erigena, "De Divisione Naturae" ar silff rhyw lyfrgell yr aeth iddi, eistedd i lawr i ddarllen, gan anghofio pawb a phob peth. Chwilia am gynifer o lawysgrifau o bob math ag y gall ddo'd o hyd iddynt, gan gario eu hanes, eu dyddiad a'r rhan fwyaf o'u cynwysiad ymaith yn ei gof. Sylwa ar yr adeiladau cyhoeddus penaf y daw o hyd iddynt, a thyn eu cynlluniau ar ei lyfr. Aiff drwy *picture galleries* mawreddog y Cyfandir, yn Paris, Florence, Dresden a lleoedd eraill. Dymunai pe modd i gael copi o'r darlun o'r "Gwaredwr" a welodd yn y Louvre, i'w osod i fynu yn ei dy gartref "i'w sirioli yn oriau ei brudd-der, a'i ysprydoli ar adegau ei ddedwyddwch." Darfu i weithiau Raphael ac Angelo pan dorodd eu gogoniant arno, ei lwyr orchfygu; yr oedd wedi gweled copiau o honynt o'r blaen, ond ni ddysgwyliai y buasai golwg ar y *paintings* gwreiddiol i effeithio mor anorchfygol arno. Treuliodd amser dedwydd iawn yn Florence, ac arosodd yno am dro; ond pan aeth yno yr ail waith yn ei fywyd, arosodd yn hwy yno; canys yno, yn Florence y canodd yn iach i'r holl drafferth a'r holl bleser sy dan yr haul, ac yno y gorwedd ei lwch. Nid oedd dim, mewn un man ag oedd o werth i'w weled —hynafiaethau, adeiladau, llyfr-gelloedd, monwentydd—na fynai ef eu gweled. Yr oedd yn hoff iawn o bob peth cysylltiedig â'r genedl Iuddewig; elai bob amser i'w manau claddu hwy. "Mae ynwyf," meddai, "ryw serch annwynol *(inborn)* at y bobl ryfedd hyn, wedi bod yn orthrymedig am oesau, eto yn fyw ac yn wyrdd-las o hyd. Yr wyf yn meddwl am y gwasanaeth a wnaethant i'r hiliogaeth ddynol—a'r wobr a gawsant! Daw Abraham, Isaac a Jacob i'm cof, ac efe yr hwn oedd yn uchafnod *(culmination)* y genedl, ei blodyn penaf. Nis anghofiaf byth y teimladau gyda'r rhai y darfu i mi, fel llawer eraill, osod careg yn ddefosiynol ar feddfaen Patriarch [yn Prague] a fuasai farw fil o flynyddoedd yn ol, a chymeryd dalen oddiar gangau yr ysgawen yr hon a wreiddiai yn ei ludw maluriedig." Ymwelai â'r prif-ysgolion, a gwrandawai ar gynifer o'r athrawon yn darlithio ag oedd modd—dynion yr oedd eu clod yn yr holl fyd ac yn America hefyd. Gwnaeth gydnabyddiaeth â llaweroedd o honynt, a chyfeillgarwch â rhai a barodd hyd ddiwedd ei oes. Yn y Sorbonne, yn Paris, bu yn gwrando ar Damiron yn darlithio ar Gassendi, a Jules Simon ar Proclus a'i ysgol. Clywodd De Portet unwaith yn darlithio ar Gyfraith Natur i bedwar dysgybl "yr hyn oedd yn bedwar yn fwy nag a deilyngai'r ddarlith." Aeth fagad o weithiau i'r dyben o glywed y Duwinyddion yn y coleg yn darlithio, "ond byth y gwnai'r cnafiaid ddarlithio yn ol eu haddewid." Yn Berlin clywodd Werder yn darlithio ar Resymeg *(Logic)*. Y pwynt y diwrnod hwnw oedd "Terfyn-

oldeb." Dywedai ryw bethau "annhraethadwy" yn y fan hon ar y pwnc. Aeth i nwydau mawr. Yr holl amser, yr oedd yno ryw fachgen tew, pendew o fyfyriwr, gyda bochau fel clychau'n hongian—cyw melyn olaf ei fam, yn ddibettai—yn ceisio ei oreu, druan, i ddilyn yr athraw, diwedd cân yr hwn oedd hyn: "Rhywbeth sydd allan, ac allan rywbeth, ac nid arall; arall sydd allan ac allan arall, ac nid rhywbeth." Yn wir, chwarae teg i'r cyw melyn, nid rhyw amlwg iawn i neb dybygid yw'r tryblith uchod—os i'r athraw ei hun. Clywodd Schelling, gelyn creulon Hegel. Yn Berlin befyd clywodd Vatke, a Michelet, Twesten, Böck a Steffens. Yn Halle cwrddodd â Tholuck a chlywodd ef yn darlithio. Yn Heidelberg ymwelodd â'r holl athrawon enwocaf; rhyngddo a Schlosser bu llawer o gyfeillach ddyddanus, ac a Gervinus yr hwn oedd newydd gael ei appwyntio i'w gadair. Clywodd ryw athraw yn darlithio am gryn awr o amser ar y *Dagesh forte* (rhyw nodyn bach yn y iaith Hebraeg) gyda gair neu ddau gyda llaw ar y *Dagesh lene* a'r *Dagesh Chappik*. Gwelodd Ullman, a Hermann, a Creutzer, a llu o'r hên athrawon enwog. Yn Tübingen gwelodd Ewald "un o'r penau caletaf yn Germani, o leiaf ym mhlith y duwinyddion." Mawr foddhawyd ef yn Paulus, yr *anti-supernaturalist* enwog. "Dyn o athrylith oedd Paulus; Creutzer yn ddim ond dyn o dalent, dysgeidiaeth a diwydrwydd. Hen fachgen campus oedd Paulus, teneu, gyda llygad eryr; er y pryd hwnw yn 83 oed, yn gryf ac ieuengaidd, ac yn casau dim ond Schelling." Ni chydwelai Gervinus â Mr. Parker yng nghylch dylanwad Strauss, ac y mae gwaith Strauss yn ddiweddar ar ol yspaid oddeutu deng mlynedd ar hugain, yn adgyhoeddi ei "Leben Jesu" (Bywyd yr Iesu) gan ddal at ei olygiadau cyntefig a'u hamddiffyn gyda mwy o fedrusrwydd a nerth na chynt, os oedd modd, yn tueddu i ddangos mai Mr. Parker oedd y proffwyd cywir. "Tybia Gervinus fod dylanwad Strauss wedi pasio ymaith; ac felly y dywed Ullmann. Yr wyf o'r farn eu bod yn camsynied. Y dylanwad *cyntaf*—o wneuthur swn a chyffro,—diddadl fod hwn drosodd; ond bydd i'r gwirionedd a ddugodd i oleuni i suddo i dduwinyddiaeth Germani, a'i moldio o newydd . . . Am nad yw Strauss yn ffurfio plaid, nid oes weithrediad amlwg; ond nid yw ei feddyliau wedi marw—nid ydynt dybygwn i, yn ddiwaith. Gwnant eto ryw gymaint o waith. Maes o law fe wahenir y gwir yn ei gyfundraith oddiwrth y gau, ac anghofir yr olaf. Bydd gwirionedd y llyfr yn sicr o ymddangos." Yn Bâle talodd ymweliad â De Wette, "dyn bychan cryno, a gwyneb hytrach sychaidd." Gwelodd lawer arno, a chlywodd ef yn darlithio ragor nag unwaith i ugain o fyfyrwyr. Rhoddodd dderbyniad gwresog i Mr. Parker, ac yr oedd eu hymadawiad yn dyner a serchog. "Ni ddarfu i gymaint a welais i arno," medd Mr. Parker, "na chodi na lleihau yr olwg oedd genyf ar y dyn yn flaenorol."

Treulia gryn amser yn Rhufain, a phan yn teithio tuag yno darllenai Horace (Satire II., viii. 13,) yr holl ffordd, "nid heb bleser newydd." "Gyda'r eithriad o Athen a Jerusalem," meddai, "nid oes yr un ddinas i mi mor llawn o adgofion â Rhufain. Mae wedi bod ddwywaith yn famddinas y byd—unwaith yn famddinas y byd Paganaidd, trwy drais anifeiladd, ac unwaith yn famddinas y byd Crist'nogol, trwy drais ysprydol. Mae wedi gwneuthur anialwch o'i deutu ddwywaith. Ymwel â'i holl ryfeddodau; ei holl brif-adeiladau, Paganaidd a Christ'nogol; y carchar lle bu Paul. "Mae yn rhywbeth i eistedd i lawr yn y ddaeargell, lle bu Paul yn garcharor!" Cafodd ei gyflwyno i'r Pab. Desgrifia ef fel un "a

gwyneb caredig, wedi ysgrifenu rhai llyfrau, ac yn cael ei gyfrif yn ddyn naturiol alluog, yn annibynol ar ei anffaeledigrwydd." Cyfeillachodd gryn lawer â gwyr dysgedig o Gatholiciaid yng nghylch eu ffydd, a chafodd hwynt bob amser yn garedig, rhydd oddiwrth bob ffregod (*cant*), a dysgodd lawer oddiwrthynt. Dywed "fod llawer o bethau yng nghylch yr Eglwys Gatholig ag yr oedd ef bob amser wedi bod yn hoff o honynt—ei cherddoriaeth, ei badeiladaeth, ei harluniau, ei delwau. Hefyd yr oedd ganddi restr faith o saint y rhai a wir barchai. Yr oedd yr Eglwys Gatholig yn Ddemocrataidd (yng ngwir ystyr y gair) yn appwyntiad ei saint. Ni wneir neb yn sant oddigerth ar gyfer rhagoriaethau *personol;* nid ar gyfrif golud, neu enedigaeth, neu allu, ond rhinwedd yn unig. Beth os ydynt yn gweddio ar y saint, fel y dywed y Protestaniaid, neu trwyddynt, fel y dywedant hwy? Cystal gan y gwir Dduw, dybiai ef, gael ei alw yn St. Cecilia ag yn Jehovah; a rhaid y bydd gwir weddi yn dderbyniol gan y gwir Dduw."

Yn Llundain, ar ei ddychweliad o'r Cyfandir, gwnaeth adnabyddiaeth â Hennell, a Carlyle, a John Sterling, y pryd hwnw, druan, dros ei ben yn y ddarfodedigaeth ac ar fin marw. Ar ol ymweled â bagad o fanau yn Lloegr, aeth i Lerpwl, lle y pregethodd dros James Martineau. Ar ddydd Sabbath, y 1af o Fedi, 1844, cyrhaedda adref, ar ol mordaith o ddeuddeg diwrnod,—y feraf a wnaethid erioed yr amser hwnw—ac wedi bod yn absenol o'i wlad am flwyddyn gywir.

Mae ei lythyron o'r Cyfandir, fel yn wir ei holl lythyron, y goreu a welais erioed, oddigerth feallai eiddo Arglwydd Byron (yn eu ffordd hwy). Mae yn sylwi ar bob peth, ac yn hitio darlun cywir o bob peth. Nid oes dim ymgais at fod yn addurniadol ac yn fawreddog; mae y cyfan yn syml a naturiol; ac y mae y nodiadau a wna ar bersonau a lleoedd, ar arferion a deddfau, ar bob peth mewn gair a dynai ei sylw yn y gwledydd y trafaelai trwyddynt, yn dangos meddwl craffus, nerthol, a gwreiddiol i'r pen. Byddai yn addysg fawr i bawb eu darllen. A chan gofio, rhydd yr hanesyn bychan hwn yn un o honynt. Pan yn Germani, dywedodd rhywun wrtho nad oedd Strauss yn Gristion—dywedasai Tholuck yr un peth wrtho o'r blaen. Gofynodd Mr. Parker, "A wyddoch chwi ryw ddrwg am ei fywyd?" "Dim. Mae ei fywyd yn wrol (*manly*), gododig (*noble*), heb ysmotyn arno," oedd yr ateb. "Parodd weinyddu yr ordinhad o fedydd hefyd ar ei blentyn, onid do?" "Do." "A ellwch ddweyd cymaint â hyna mewn amddiffyniad i Grist'nogaeth y rhan fwyaf o ddynion gwrteithiedig a anrhydeddir â'r enw yna o Gristion?" "Na, yn sicr, nis gallaf. *Ni ddarfu i mi ddweyd dim yn y byd yn erbyn y dyn!*"

Mawr oedd llawenydd Mr. Parker a phobl ei ofal pan ail gyfarfuasant ar ol bod flwyddyn heb weled eu gilydd. Yr oedd yr hen acceniau yn gymaint, os nad mwy, o hyfrydlais iddynt ag erioed. Cafodd y groesawiad mwyaf gwresog, ac ymaflodd yn ddioedi yn ei waith. Yr oedd ei iechyd wedi ei adsefydlu i raddau helaeth, a'i ysprydoedd wedi eu hadfywio yn fawr. Cyfrifai fod y deuddeg mis hwnw o orphwysdra anewyllysgar, y flwyddyn fwyaf proffidiol, feallai, o holl flynyddoedd ei fywyd, hyd y pryd hwnw, gyda golwg ar ëangu ei wybodaeth, a'i baratoi ar gyfer llawer o bethau oeddynt yn ei aros. Gobeithiasai rhai o'i gyfeillion y buasai blwyddyn o absenoldeb o dir ei wlad yn ei ddwyn i ymofyn am yr hen lwybrau, ac yn ei dueddu i alw yn ol rai pethau yr oedd wedi eu cyhoeddi a'u hamddiffyn. Pa fodd bynag, pell oddiwrth hyny y bu. Ni wnaethai adfyfyrdod, a

chyfleusderau newyddion i gyrhaedd adnabyddiaeth helaethach o ansawdd duwinyddiaeth a chrefydd mewn gwledydd eraill, ond ei gadarnhau ym mhriodoldeb y safle a gymerasai. Tra y bu oddicartref, gwnaethai ei wrthwynebwyr eu hunain yn gysurus trwy berswadio eu hunain nad oedd ei athrawiaethau wedi gwreiddio dim yn America, a bod ei ganlynwyr personol yn troi yn ol o gyfeiliorni eu ffyrdd; ond darfu i swn ei lais adgynhyrfu eu gwrthwynebiad, a pheri chwythu udgorn rhyfel i'w erbyn yn y pwlpidau ac yn y newyddiaduron.

Yr oedd yn perthyn i'r gweinidogion a gyfansoddent Gymdeithasfa Boston ddarlith, a elwid y *Thursday Lecture*—ar gylch traddodent ddarlithiau achlysurol ar bynciau o bwys, mewn cysylltiad â Duwinyddiaeth, ac yn gweddu i'r amserau. Traddododd Mr. Parker hi am y tro diweddaf yn Rhagfyr, 1844, ar y testun: "A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo ef, neu o'r Phariseaid?" Rhoddodd y ddarlith hon dramgwydd mawr. Buasai yn eglurach ac yn helaethach ar berson Crist y tro hwn nag erioed o'r blaen. Gosododd allan mewn iaith gref a goleu natur ddynol Crist, a'i berthynas â'i oes ei hun ac âg oesau dyfodol. Rhydd ei fywgraffydd ar ddeall mai syn wrth edrych yn ol yw meddwl ddarfod i osodiadau mor gymedrol gyffroi y fath anfoddlonrwydd. Yr oeddid yn awr am ei ddifreinio o'i hawl i draddodi'r ddarlith hon; ac er na roddai ef ei hawl i fynu i fod yn aelod o'r Gymdeithasfa, nac i draddodi'r ddarlith yn ei dro, gan nas gallai weled mai iawn oedd iddo ef wneyd yr hyn nad oedd gan neb hawl i'w ofyn ar ei law; eto y diwedd fu, i'w hawl i draddodi'r ddarlith gael ei diddymu, mewn dull cyfrwysgall a dystaw gan y pwyllgor, ac i'w gwaith hwy yn cadw i bant gan wrthod cyfeillachu âg ef fel cydfrawd a chydweinidog i wneyd y gweddill o'r hyn a ddymunent. Y dull a gymerasant oedd rhoi y ddarlith yn ol i weinidog rhyw eglwys neillduol yn Boston, gyda'r hwn yr oedd yr hawl ddechreuol i'w thraddodi. Eto dealler fod ganddo ef rai cyfeillion mynwesol yn y gymdeithasfa—nid yn cydweled, ond yn cydymdeimlo âg ef, ac yn mawrhau ei alluoedd, ei ddwysder a'i dduwioldeb. Wrth ysgrifenu at un o honynt, y Parch. Chandler Robbins, dywed: "Yr hyn a fynwn i yw fod y Gymdeithasfa yn syrthio yn ol ar yr egwyddorion mawrion y tybiwn i unwaith eu bod yn eu llettya—gan gofio mai o'r pen y daw duwinyddiaeth, a chrefydd o'r galon; tra nad oes ond un grefydd y gall fod llawer iawn o dduwinyddiaethau, a thra gwahanol i'w gilydd, bob un yn ammherffaith, ond yn helpu i'r gwirionedd; ac y dichon i ddyn fod â'r grefydd Grist'nogol yn ei galon, a'i byw hi hefyd, heb fod ganddo na'ch duwinyddiaeth chwi na'r eiddof finau. Mi a fynwn iddynt ganiatau yr enw Cristion i bob un a ddewiso ei gael ac a arweinio fywyd Crist'nogol, gan adael y gwaith o amddiffyn yr enw ac o'i ddeffinio i'r dyn ei hun. A thrachefn mi a fynwn pe gwnaent drin materion o wyddor *(matters of science)*, (ac felly y cyfrifaf fi amheuon yn gystal a honiadau duwinyddol) fel materion o wyddor, ac nid fel profion o galon ddrwg neu dda." Dywed nad yw ef yn y mesur lleiaf wedi digio am a wnaethai'r pwyllgor, ond os mai ei gau ef allan oedd mewn golwg ganddynt, y carasai ef fod y peth yn cael ei wneyd mewn ffordd llai cwmpasog; mai ei ewyllys oedd bod pob peth yn cael ei wneyd yn blaen ac yn *ddirect*. Nad oedd teimladau personol yn ei ddylanwadu ef o gwbl. Y rhyfeddai fod neb yn amheu y gwnai ef dderbyn yn garedig bob mesur a gynygid yn deg gan y Gymdeithasfa. "Nid oes ynwyf deimladau angharedig at ddim un o honynt. Bu ynwyf deimladau a ystyriwn ychydig yn angharedig tuag at un o honynt rai misoedd yn ol. Mi a ddywedaf i chwi y ffordd y ces wared o honynt.

Ni ddywedais un gair yn ei erbyn; dywedais yr holl bethau da a wyddwn am dano, amddiffynais ef fagad o weithiau, gan glogynu y barnau llymion y gwnai eraill eu mynegu am dano. Aeth yntau ym mlaen i'm difrio (felly yr wyf fi yn meddwl). Gochelwn hyd y gallwn bob peth a ddywedai neu a ysgrifenai. O'r diwedd gwnaeth yr hyn a ystyriwn i o ddifrif yn beth gwarthus, ac o'r mwyaf anghrist'nogol tuag ataf; ac yn awr ni theimlaf y wreichionen leiaf o angharedigrwydd tuag ato. Cwrddais âg ef yn ddiweddar, ac ysgydwais law âg ef, a theimlais fy mod wedi ei orchfygu." Efe a gwrddodd â digon o sarhadau, o erledigaeth lechwraidd, digon o enllib santaidd, digon o oerfelgarwch oddiwrth gydweinidogion i rewi'n îa caled galon lai agored a gwresog. Ond dyma ei benderfyniad: "Nid oes genyf ond un adnawdd *(resource)*, a hyny yw, gorchfygu drygioni trwy ddaioni—llawer o ddrygioni trwy ddaioni mwy, hen ddrygioni trwy ddaioni newydd. Weithiau pan dderbyniaf sarhad newydd, gwnaiff i'm gwaed godi am eiliad; yna y mae drosodd, ac wedy'n chwiliaf, os bydd modd, am ffordd i wneyd rhyw ddaioni yn ddirgelaidd i'r dyn. *Cymer hyn i bant boen clwyf yn rhyfeddol.* Bod yn ffyddlawn i Dduw, ac "i'r un dalent y mae'n angen i'w chuddio"—gorphwys hyn arnaf fi. Pwnc eraill yw gwybod fy mod felly yn ffyddlawn; ac os byddant anwybodus o hyn, wel, eu pwnc hwy yw, ac nid yr eiddof fi. Ar brydiau, mynwn i angeu ddyfod, a'm suo i gysgu â'i adenydd. Ond fe atalia ffydd y murmur yna, ac y mae 'dy ewyllys di a wneler' yn ddigon o weddi i mi."

Ysgrifenodd lythyr at y Gymdeithasfa yn gofyn ganddynt, yn gymaint a'u bod hwy yn ofni cael eu hystyried yn gyfrifol gan y cyhoedd am ei olygiadau personol ef, i wneyd yn hyspys y gwahaniaeth rhyngddynt. I'r dyben hyn ceisiodd ganddynt naill ai rhoi ateb i bob un o'i gwestiynau, yr hyn ni allent wneyd am yr anghyttunent mor bell yn eu plith eu hunain; neu ynte, gan na allent wneyd hyn, ceisiodd ganddynt hyspysu'r cyhoedd na fedrent ateb ei lythyr bwnc am bwnc, *am* na chyttunent. Nis gwnaethant hyn ychwaith. Ac fel hyn y gadawyd y matter. Dweyd na effeithiodd ymddygiad rhyfedd, ofnus, clacar, llechwraidd, erlidgar ei gydweinidogion arno, fyddai honi peth anghredadwy, yn ol a wyddom am y natur ddynol, yn enwedig natur mor fywiog a llawn o deimlad brawdol, serchus a'r eiddo ef. Ond ni ches i afael ar ddim eto i'm perswadio i'w hymddygiad ato ei chwerwi a'i yru i eithafion. Yn unig, argyhoeddodd ef, nid heb lawer o wasgfa a thristwch, fod angenrhaid yn cael ei osod arno i sefyll ar ei ben ei hun o'u rhan hwy, a thynu allan drosto ei hun y cynlluniau goreu i fod yn ffyddlawn i'r gwirionedd oedd wedi ei ddadguddio i'w feddwl, a'i gyhoeddi a'i gymhell i sylw ei gydwladwyr. Hyn a wnaeth gyda'r aidd a'r medrusrwydd a berthynai i'w natur; gyda'r gwroldeb a'r eglurder, a'r nerth; gyda'r hyawdledd a'r arddeliad hefyd, fel y darfu iddi droi allan yn y diwedd, ag oeddynt y profion penaf fod ganddo genadwri oddiwrth Dduw at ei oes a'i wlad, ac at yr holl fyd Crist'nogol.

Aeth ym mlaen gyda'i efrydiaethau amrywiol, a chyda'i lafur arferol ym mhlith ei braidd bychan yn West Roxbury am dymhor, gan ysgrifenu a darlithio llawer. Yn ystod gauaf 1844-5, darlithiodd ddeugain o weithiau. Yn Chwefror, 1845, cydsyniodd â chais pwyllgor oedd wedi ymffurfio yn Boston, i bregethu iddynt bob bore Sabbath am flwyddyn, drwy ganiatad pobl ei ofal i ddarbod iddynt ryw un yn ei le am y rhan hono o'r dydd. Gwelent fod maes ëangach i'w lafur yn ymagor o'i flaen, ac ni safasant am

fynud ar ei ffordd. Mudiad hunan-gynhyrfiol oedd hwn yn Boston. Tybiai rhai cyfeillion yno fod egwyddor fawr rhyddid crefyddol mewn perygl, yn gymaint a'i bod yn cael ei diarddel, a hyny gydag ysgorn a hissiadau gan yr Undodiaid eu hunain—"y Cristnogion rhyddion," "plaid yn myned ym mlaen"—yn gystal a chan yr iawn ffyddiog. Felly cynygodd un dyn ieuainc: Fod i Theodore Parker i gael cyfle i draethu ei olygiadau yn Boston. Cyttunwyd ar hyny. Ond cymaint oedd y gwrthwynebiad cyffredin, fel, er cynyg talu ym mlaen, ni chaed yr un o neuaddau gweigion Boston ar osod i'r cyfeillion anturiaethus, oddieithr y Melodeon, yr hon pa fodd bynag oedd y fwyaf a'r fwyaf canolog yn y dref ar y pryd. Felly ar Sabbath oer yn Chwefror, 1845, dechreuodd ar ei waith yn Boston. Sabbath gwlawog oedd, yr ystrydoedd yn llawn eira, a phawb bron o'i wrandawyr yn ddyeithriaid iddo. Ond yr oedd yno neuadd lawn, o wyr yn benaf. Testun y bregeth oedd: "Gwir grefydd yn anhebgorol i ddedwyddwch dyn yn ei fywyd unigol a chymdeithasol." Dydd y pethau bychain oedd hwn. Ychydig a feddylid y pryd hwnw y daethai Mr. Parker yn weinidog arosol yn y dref, ac y cawsai'r gynulleidfa fwyaf a fu erioed yn America—rhyw saith mil ar y llyfrau, o wyr a gwragedd yn edrych i fynu ato am gysur a chyfarwyddyd, i'r rhai y gweinai addysc a help, trwy ei weinidogaeth gyhoeddus o'r pwlpit, neu trwy lythyron, gydag aelodau ym mhob tref braidd o Ddwyrain i Orllewin.

Darfu ei bregethu achlysurol fel hyn yn Boston gyrhaedd poblogrwydd nad oedd ef erioed wedi edrych am dano. Tyrai yno ddynion craffus, cryfion, ymofyngar, a llawer nad arferent fyned o'r blaen i un man, ac na wyddent ddim am y budd a'r pleser mewn crefydd gadarnhaol (*positive religion*). Nid yn unig ei wybodaeth, ei ddysgeidiaeth, ei hyawdledd a gasglai'r bobl ynghyd, ond yn benaf ei apeliadau nerthol at synwyr cyffredin, at deimladau naturiol, at gydwybod a chalon ei wrandawyr; ei gariad diledryw at ddyn a'i awydd i'w dderchafu a'i ddedwyddu. Teimlai yn ddigon gwangalon ar droion. Ofnai na feddai ar ddigon o nerth a chymhwysder i adeiladu ac arwain ei gyd-ddynion o dan y fath amgylchiadau. Ond glynodd wrthi. Parhaodd i gasglu nerth a dylanwad. Yn y diwedd daeth i'r penderfyniad, digon trallodus iddo ar y pryd, i ganu'n iach i'w gyfeillion anwyl yn West Roxbury, ac ymsefydlu yn gyfangwbl yn Boston. Ysgrifenai: "Mae y Pwyllgor Plwyfol wedi bod yma yn ymgynghori â mi yng nghylch gadael yr eglwys. Ymddengys i mi yn waeth na chynorthwyo yn fy angladd fy hun—yr unig *wir* adfyd sy wedi fy nghwrdd fel gweinidog; mae yr holl drallodion eraill wedi bod yn fendithion o dan wyneb gau (*in a mask*)—ond y mae hyn yn dristwch. Pa fodd y gallaf sefyll am y waith olaf yn yr hen bwlpid anwyl, cyfarwydd, ac edrych ar yr hen wynebau anwyl am y waith olaf allan o'r pwlpit? Ond rhaid iddi fod, a hi fydd yn fuan. Yr wyf yn glynu yn afaelus wrth bob peth y darfu i mi erioed ei garu. Blin yw genyf hyd yn oed golli golwg ar gwmwl ymadawol. Eto dichon y bydd hyn hefyd er daioni—i'r hen gyfeillion anwyl hyny, i mi, i bawb." Dywed mai ei *ddymuniad* oedd aros gyda hwy, ond bod ei *ddyledswydd* yn ei orchymyn i le arall. Ac felly gydâ llawer o hiraeth a llawer o ddagrau ymadawodd; ac ar ddydd Sabbath, Ionawr 4ydd, 1846, ymsefydlodd yn weinidog ar yr 28ain Gynulleidfa (*the 28th Congregational Society*) yn Boston, gan bregethu y pregethau ei hun—neb i'w gynorthwyo, i'w neillduo i'w swydd—ar y testun, "y gwir Ddrychfeddwl o Eglwys Grist'nogol."

WILLIAM THOMAS.

Gohebiaethau.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YNG NGHYMRU,

(Welsh Unitarian Ministers' Education Fund.)

Trysorydd—Mr. J. Jones, Stamp-office, Aberdar.

Ysgrifenydd—Pareh. R. J. Jones, Mountpleasant Garden, Aberdar.

Cyfeisteddwyr (Committee)—Parch-edigion J. E. Jones; O. Evans; Thomas Thomas; E. W. Lloyd; Wm, Thomas; Meistri G. Davies, Ynysllwyd; Jenkin Harries, Cefncoed; Daniel Davies, Abernantygroes; Thos. Stephens, Merthyr.

RHEOL.

1. Fod yn rhaid i'r *Committee* gyfarfod o leiaf bedair gwaith yn y flwyddyn.

2. Fod presenoldeb pedwar o'r *Committee* yn ddigon i wneuthur *quorum*.

TANYSGRIFIADAU.

Y mae'r personau canlynol wedi talu, y mae ereill wedi addaw ond hyd etto heb gael cyfleusdra i dalu.—

	£	s.	c.
Mr. Griffith Davies, Ynysllwyd	5	0	0
Parch. J. E. Jones, Penybont	1	0	0
— E. W. Lloyd, Cwmbach	1	0	0
— John Evans, Gellionnen..	1	0	0
— Owen Evans, Cefn.....	1	0	0
— Thos. Thomas, Pantydefaid	1	0	0
— R. J. Jones.....	1	0	0
— W. A. Jones, Taunton ..	1	0	0
A Friend	1	0	0
Mr. Jenkin Harries, Cefn	1	0	0
— John James, Camnantfach	1	0	0
— Daniel Davies, Abernantygroes	1	0	0
— Christmas Evans, Six Bells, Heolgerrig	1	0	0
— John Jones, Stamp-office	1	0	0
Cynnulleidfa'r Nottage	1	0	0
Mr. M. Morgans, Garwdylau	0	10	0
— David Evans, Tregroes..	0	10	0
— John Davies, Tancoed, Llanwenog	0	10	0
Mr. Edward Williams, Cefn Pennar (D.)	0	10	0
— John Thomas, Bynea (D.) (Addewid o 2s.6d. y flwyddyn yn y dyfodol.)	0	10	0
Parch. Titus Lloyd, Nottage ..	0	5	0
Mr. Levi Davies, Cardigan ...	0	5	0
— Rosser Jenkins, Cwmnedd	0	2	6
— W. D. Williams, Cwmneol	0	2	6
— David Davies, David St., Aberdar	0	2	6
— John Evans, crydd, Cefncoed-y-cymmer	0	2	6
— David Davies (D.)	0	2	6

AT OLYGYDD YR "YMOFYNYDD."

Ar destun y Gynnadledd yn y Gellionnen ac amser *y Cwrdd.*

GWELLIANT GWALL.

FE ddarfu *reporter* Cyfarfod Blynyddol diweddaf yr Undodiaid, a gynhaliwyd yn Nghwmbach, Aberdar, hyspysu yn yr *Ymofynydd*, rhif. 67, tudal. 169, o'r ail gyfres, "Mai tebygol mai'r un testun" a fu yno, "fydd dan ystyriaeth y gynadledd yn y Cyfarfod Chwarterol nesaf" yn y Gellionen, neu "o leiaf nad oedd ef yn cofio ddarfod i un arall gael ei gynyg a'i gymeradwyo." Dymunaf hyspysu fod y cyfryw *reporter wedi* anghofio hyny, ac mai'r testun a gynygiwyd ac a gymeradwywyd hefyd oedd, "Beth sydd i'w feddwl wrth bechod i farwolaeth, a phechod nid yw i farwolaeth," 1 Ioan v. 16.

Gellionen, Gor. 25. JOHN EVANS.

[Y mae un peth arall wedi myned yn anghof ar ryw rai—a pheth o gryn bwys hefyd i'r sawl a fwriadant fyned i'r cwrdd—sef, nodi yr amser a'r dydd y cynnelir y cyfarfod. Y rheol arferol (fel yr y'm *ni* yn deall) oedd i fod Cwrdd Cwarterol yr Hydref i gael ei gynnal ar y Iau cyntaf ar ol dydd Gwyl Mihangel (29ain o Fedi)

O.Y. Dymuna'r ysgrifenydd yn garedig ar i neb a ddarlleno'r tudalenau hyn i beidio priodoli *ansynwyr* na *chamsynwyr* iddo nes y caffo gyfle i gywiro gwallau'r wasg. Mae bagad yn y llythyr diweddaf: tud. 149, llin. 18 o'r gwaelod, rhwng 'nefol' a Boed mae brawddeg gyfan allan—"Triged crefydd yn santaidd santeiddiolaf fy nghalon;" tud. 151, llin. 27 o'r gwaelod yn lle 'mynydd' darll. 'mywyd;' yr un tud., llin. 15 o'r gwaelod, doder '*ac*' i mewn o flaen 'yn dragywydd;' yr un tud. llin. 24 o'r gwaelod, yn lle 'iddynt' darll. '*ymddynt*;' tud 155, llin. 14 o'r gwaelod, yn lle 'trwy,' darll. '*hwy*;' tud. 156, llin. 14 o'r gwàr, yn lle 'Bastol,' darll. '*Bartol*,' heblaw eraill.—(*Parker*). W. T.

a'r prydnawn o'r blaen; ac *ar y dydd hwnw* (y 29ain) os digwyddai fod ar ddydd Iau; oddieithr bod rhywbeth yn amgylchiadau'r gymmydogaeth ag a fyddai yn ei gwneud yn neilldiol gyfleus i ohirio y cyfarfod am wythnos ymhellach, o'r hyn beth y byddid i roddi hyspysrwydd prydlawn i'r gweinidogion ac eraill.

Y mae yn digwydd eleni fod y 29ain o Fedi ar ddydd Iau. A daeth llythyr Mr. E. i law yn rhy ddiweddar yn y mis i ni anfon yn ol atto, ac iddo ef ymgynghori â'i gynnulleidfa ynghylch hyn o beth.

Dan yr amgylchiadau bydd i ni ei gymmeryd yn ganiattaol i fod y cyfarfod i gymmeryd lle ar y 29ain o Fedi, oddieithr i ni gael hyspysiad i'r gwrthwyneb oddiwrth Mr. Evans erbyn ein rhifyn nesaf.—Gol.]

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y Senedd a'r Weinyddiaeth.—Gollyngwyd y Senedd ar y 29ain o Orphenaf. Yn yr Araeth Frenhinol a draddodwyd ar yr achlysur, cyfeirir, fel gyda blinder meddwl, at yr amgylchiad o fod Lloegr ynghyd â Ffrainge, Rwssia a Sweden (mewn cynnadledd) wedi methu dwyn Germany a Denmarc i wneud heddwch â'u gilydd; ond yr hyderid y byddai i'r negeswriaeth uniongyrchol ag oedd wedi cymmeryd lle yn ol llaw rhwng y pleidian, i fod yn llwyddiannus o leiaf i adferyd heddwch yn Ngogleddddir Ewrop. Gyda galar hefyd y cyfeirid at barhâd y rhyfel rhwng y Gogleddwyr a'r Deheuwyr yn y gynt Unol Daleithiau, yn America. Bod llywodraeth ei Mawrhydi yn benderfynol i barhau i gadw at ammhleidgarwch hollol rhwng y pleidiau sydd mewn rhyfel â'u gilydd; ond y byddai yn llawenydd mawr i weled cymmod a chyfeillgarwch wedi ei adferyd rhyngddynt, Llefarid gydâ boddhad am yr hyn a wnaed ac a gyttunasid arno mewn perthynas â Groeg a Moldo-Wallachia, ac am ein perthynas gyfeillgar âg ymherawdwr China, a chynnydd ein masgnach â'r wlad ëang honno. Ond dim gair, sylwer:—na, dim sill o'r hen frawddeg arferol 'fod ei Mawrhydi wedi derbyn sicrhâd boddhäol o heddycholdeb a chyfeillgarwch oddiwrth brif aliuoedd Ewrop. Cafodd cyfansoddwyr yr araeth Frenhinol y fraint, ar hyn o bryd, o allu gochelyd cymaint a hyny o ragrith.—Wedi diolch i Dŷ y Cyffredin am eu parodrwydd i wneud y darpariadau angenrheidiol tuag at draul y llywodraeth, â'r araeth rhagddi i hyspysu gyda chydnabyddiaeth deimladwy, fod y caledi yn y gweithiau cotwn a gyfodasai oddiar y rhyfel annedwydd yn America, yn awr wedi lleihau yn ddirfawr, a bod cotwn bellach yn dyfod i'n gwlad, ac i fesur helaeth, o wledydd nad oeddid o'r blaen yn disgwyl am y fath beth oddiwrthynt, Cyfeirir at y rhyfel yn New Zealand gydâ'r gobaith hyderus y bydd i'r terfysg yno i gael ei osod i lawr yn fuan. Fod pob peth yn llwyddiannus dros ben yn yr India Ddwyreiniol. Cyfeirir, nid heb reswm da, gyda boddhad neilldiol, at fesurau Mr. Gladstone er annog a meithrin cynildeb ymhlith y werin, trwy drefnu diogelwch cyfleus iddynt i gadw eu ennillion; ac at fesurau da eraill i'r cyffelyb berwyl. Diwedda yr Araeth gyda diolchgarwch am drugareddau mawrion, a dymuno am fendith yr Hollalluog. Nid oes ond ychydig i'w gofnodi am weithrediadau y Senedd yn ystod yr Eisteddiad ag sydd yn awr wedi ei ddwyn i derfyniad; a gadael heibio mesurau llëol (rheilffyrdd, &c.) a mesurau Gladstoue gydâ golwg ar drafnidaeth gyffredinol, a lles y werin. Ni wnaed dim braidd at arwain y wlad ymlaen at berffeithrwydd gwleidyddol, diwygio y gynrychiolaeth, nac er sicrhau ac ehangu rhyddid gwladol a chrefyddol. Yr ychydig gynnygiadau a wnaed yn y cyfer hyny a ddaethant i'r dim, gan gymmaint oedd nerth yr wrthblaid Doriaidd. Trin materion gwledydd eraill, a rhanau pellenig o'r Deyrnas Gyfunol ddarfu dreulio y rhan fwyaf o amser ein senedd-dai. Ac yn wir, pa fater bynag oedd dan sylw, yr oedd yn lled amlwg mai y pwngc mwyaf ei bwys, a'r hwn oedd yn gorwedd o dan bob ymdriniaeth ar hyd yr eisteddiad diweddaf oedd, *pwngc plaid* a dim ond hyny, ac ymrysonfa am yr awdurdod a'r 'torthau.'

Tybiai plaid Argl. Derby y gallent ddiswyddo gweinyddiaeth Argl. Palmerston, ac ei bod yn llawn bryd bellach i wneud hyny. Yr wythnos gyntaf yn y mis diweddaf gwnaethpwyd ymosodiod penderfynol a beiddgar; ond methwyd â chyrhaeddyd yr amcan. Y prif ddadleuwyr oeddent Disraeli a Gladstone: gwnaeth Argl. Palmerston hefyd araeth effeithiol. Pan ranwyd y Tŷ nos Wener, yr 8fed, cafwyd fod y fuddugoliaeth gyda Palmerston a'i frodyr, er siomedigaeth a gwarth a gofid i'r wrthblaid. A buddugoliaeth iawn ydoedd: mwy yn wir nag y gellid meddwl wrth edrych yn unig ar rif y mwyafiaeth, sef 18; oblegid pe gadewid yr aelodau Gwyddelig allan, buasai y mwyafrif yn 65. Yr oedd pleidleisiau aelodau Lloegr, Ysgotland a Chymru yn 288 o blaid, a 223 yn erbyn y Weinyddiaeth, sef 65 o fwyafrif dros y llywodraeth; ond pleidleisiau yr aelodau Gwyddelig oeddynt 73 yn erbyn, a 26 dros. Cynnwysai y 47 mwyafrif Gwyddelig hwn yr aelodau arch-Babyddol, a'r rhai gan mwyaf a arferaut bleidleisio o blaid mesurau rhydd. Nid yn achos Denmarc y pleidleisient, mae'n amlwg, ond yn achos y Pab o Rufain; a gwrthwynebent y Weinyddiaeth nid oblegid diffyg ymddiried ynddynt, ond i ddial arnynt am roesawi Garibaldi, a rhyddid Italy.

Llofruddiaeth mewn cerbyd ffordd-haiarn.—Nos Sadwrn, yr 16eg o'r mis diweddaf, cyflawnwyd un o'r troseddau erchyllaf a warthruddodd gwlad erioed, mewn cerbyd o'r dosparth blaenaf, rhwng Bow a Hackney, yn nghymydogaeth Llundain; pryd y llofruddiwyd, yspeiliwyd, ac y taflwyd boneddwr o'r enw Mr. Thomas Briggs, allan o'r cerbyd, yr hyn oll a wnaed yn ystod y pedwar munyd y bu y trên yn myned o un orsaf i'r llall! Diangodd y llofrudd pan safodd y trên. Ymhen rhai diwrnodau cafwyd allan mai taeliwr Allmaenig o'r enw Müller, oedd y llofrudd, ac ei fod wedi cilio i maes o'r wlad, ac yn awr ei fod ar ei fordaith tua New York, ar fwrdd y llong *Victoria*. Ond bydd heddgeidwaid o Brydain, mae'n debyg, wedi cyrhaedd New York o'i flaen, gydag awdurdod oddiwrth Mr. Adams, y negesydd Americanaidd yma, i gymeryd y llofrudd mewn gafael cyn y gallo ymadael o'r llong.

Y Cyfandir.—Mae y rhyfel rhwng Germany a Denmarc wedi terfynu. O'r diwedd anfonodd Denmarc negesydd awdurdodedig i Berlin a Vienna i geisio ammodau heddwch. Gellir deall yn rhwydd nad oedd gan Denmarc druan ddim arall i'w wneud ond i dderbyn y fath delerau ag y gwelid yn dda gan ei gorchfygwyr trahaus ac anghyfiawn i gynnyg iddi. Ychydig ddyddiau yn ol ymgyfarfyddodd cynrychiolwyr Prwssia, Awstria a Denmarc yn Vienna, gyda'r amcan o geisio penderfynu ar ammodau yr heddwch. A ganlyn, medd gohebydd y *Times* yn Vienna, yw y telerau a gytunwyd arnynt, ddigon tebyg:—Fod i Schleswig a Holstein i gael eu llwyr ysgaru oddiwrth Denmarc, a chael eu llywodraethu gan dywysog y cydnabyddir ei hawl gan lŷs barn y Cynghrair Germanaidd; fod i Rendsburg fod yn amddiffynfa gynghreiriol, a Kiel, neu rhyw borthladd arall yn Schleswig-Holstein, fod yn borthladd rhyfel i'r Cynghrair. Er fod Prwssia yn proffesu peth gwahanol, nid oes fawr ammheuaeth nad hyn oedd amcan gwreiddiol yr ymosodiad ar Denmarc. Disgwylir wrth gwrs i gael ad-daliad o gostiau y rhyfel oddiwrth y taleithiau anrheithiedig. Hyspysa un o newyddiaduron Copenhagen fod cad-oediad am naw mis eisioes wedi ei sicrhau rhwng y Germaniaid a'r Daniaid—y Dugiaethau i gael eu meddiannu gan filwyr Awstria a Phrwssia. Os yw yr adroddiad hwn yn gywir, ymddengys fod y trefniant wedi ei wneud trwy gyfryngiad tramor cyn ymgyfarfyddiad y cynnrychiolwyr.

America.—Tua dechreu'r mis diweddaf, tra yr oedd Grant yn gwneud ei ddarpariadau tuag at ymosod ar Petersburg, cafodd Lee gyfleusdra, trwy wall ag oedd wedi digwydd ar ran Hunter, i anfon byddin gref yn ddisymwth trwy ddyffryn y Shenandoah, yr hon a lwyddodd i orchfygu Sigel, i yspeilio a difethu Maryland, ac i fygwth a dychrynu Baltimore a Washington; ac yna i ddiange a dychwelyd yn eu hol gydag yspail mawr. Nid oes un cyfnewidiad wedi cymeryd lle yn sefyllfa pethau o flaen Petersburg. Yr unig newydd oddiwrth Grant ydyw, ei fod yn cryfhau ei sefyllfa, yn gosod

magnelau gwarchau yn ei linellau, ac yn ymbarotoi yn brysur i agor tân ar y ddinas; ond nid oedd Grant na Lee yn dangos un duedd i wneud ymosodiad ar eu gilydd.

Bu Farw—

Nos Sul y 29ain o Fai diweddaf, yn 80 oed, John Thomas, Llwynyrefail, ger Rhydowen, Ceredigion. Dydd Mercher canlynol claddwyd ef yn Pantydefaid, lle yr oedd wedi bod yn aelod am amryw flynyddau. Ni wyr yr ysgrifenydd am dano ond oedd dda.

Ar y 31ain o'r un mis, Elizabeth Evans, Rhydwen, Llandyssiliogogo, gynt o'r Glaslwynfach, Llandyssul; a Mary Thomas, merch Jenkin ac Elizabeth Thomas, siop, Penybont, Rhydowen—y blaenaf yn bedwar ugain mlwydd oed, a'r olaf yn bedwar mis. Hebryngwyd hwynt i'w beddau yng nghladdfa Pantydefaid y dydd Iau canlynol.

Ar y 13eg o Mehefin diweddaf, Thomas Thomas, Dinasfach, Llandyssul, yn 65 oed. Claddwyd ef y Mercher canlynol yn Pantydefaid.

[Yn y pedair claddedigaeth uchod T. Thomas, gweinidog y lle, a gyflawnodd y gwasanaeth arferol.]

Ar y 13eg o'r mis hwn, William Thomas, saer, Cilrhiwe, ger Alltyrodin, yn 44 oed. Yr oedd yn fachgen tawel, diymryson, diniwed, serchus, ac ymofyngar am wybodaeth. Mae coffa da am dano gan ei gymmydogion, a galar trwn ar ei ol ym mhlith ei berthynasau a'i gyfeillion. Gadawodd frawd a dwy chwaer i dristhau ar ei ol. Claddwyd ef ym mynwent Llwynrhydowen, pan y pregethodd yr ysgrifenydd oddiar Rhuf. xiv. 7, 8.

Ar y 1af o Gorphenaf, yn 71 oed, Mrs. Thomas, gwraig Mr. John Thomas, Cribwrfawr, Llandyssul, chwaer y diweddar Barch. Rees Davies, Capel-y-groes a Rhyd-y-gwin, a mam y Parch. Thomas Thomas, y gweinidog presennol yng Nghapel-y-groes a Phant-y-defaid. Yr oedd yr hen wraig yma wedi mwynhau iechyd hynod dda am lawer iawn o flynyddau, ond tuag amser Nadolig diweddaf tarawyd hi yn glaf, a thybiwyd ei bod hi yn marw. Ond cafodd y fraint o wella yn lled dda o'r pŵl hwnw, ac yr oedd yn parhau i wella o hyd i'r olwg, hyd nes iddi gael ei tharo drachefn yn ddisymmwth iawn, y dydd Mawrth cyn ei marwolaeth, gan yr un clefyd ag o'r blaen. Yr oedd yn rhy wan i ddâl y tro hwn, a syrthiodd dan nerth y ddyrnod. Eithr hunodd ym mreichiau ei Thad Nefol, yr hwn etto a'i geilw hi i fywyd ac a ddyry iddi artref dragywyddol yng ngwynfydedigrwydd ei Nef. Yr oedd wedi bod yn aelod ffyddlawn a selog ym Mhant-y-defaid er yn ifangc iawn. Cerid hi yn fawr yn ei chymmydogaeth, ac yn ddiau y teimlir colled cyffredinol yno ar ei hol, ond dim gan neb yn fwy na chan y tlawd a'r anghenus, y gweddwon a'r amddifaid, y rhai oeddynt yn neillduol yn wrthrychau ei haelioni a'i charedigrwydd. Ond y mae wedi marw, ac yn ei marwolaeth y mae'r hên ŵr druan wedi colli gwraig serchog a charuaidd, yr hon a fu yn gyfaill mynwesol, ac megys yn llaw ddeheu iddo dros ddeugain mlynedd; y mae'r plant wedi colli mam dyner ac anwyl, yr hon oedd yn fwy ei hawydd bob amser am eu hawddfyd hwy nag eiddo ei hunan; yr eglwys, golofn hardd a defnyddiol; a'r ardal yn gyffredin gymmydog hynaws a pharod i gymmwynas. Canlynwyd hi i'w gorphwysfa olaf gan dyrfa mwy lliosog nag a welwyd yn yr ardal er ys rhai blynyddau. Cyflawnwyd y gwasanaeth anghladdol fel y canlyn:—Yn y tŷ, darllenwyd, gweddiwyd, a rhoddwyd emyn maes i gânu gan J. Davies; wrth y drws, cyn cychwyn, gweddiodd J. Evans; yn y capel awd trwy'r gwasanaeth gan R. J. Jones; ac ar lan y bedd dywedwyd ychydig eiriau pwrpasol iawn gan W. Rees. R. J.

Ar yr 8fed o Orphenaf, Mrs. Richard David, Abergwawr, Aberdar. Perchid Mrs. David yn fawr gan y rhai a'i hadwaenent fel menyw esmŵyth, dawel, a charuaidd, ac y mae wedi gadael cylch helaeth o gyfeillion a pherthynasau i alaru ar ei hol, ac yn eu plith, ei phriod a dau o blant anwyl. Arferai Mrs. David gyrchu i'r Hen-dŷ-cwrdd er yn blentyn. Pregethodd Mr. Jones yn y tŷ ar ddydd ei hanglad, dydd Mercher, oddiwrth Preg. vii. 2. Wedi hyny, hebryngwyd hi i'w chladdu gan dyrfa luosog i fynwent hen eglwys y plwyf.

Mawrth 11eg, Jemimah Morgans, anwyl ferch David ac Elisabeth Roderick, Troedrhiw, Cayo, swydd Gaerfyrddin, yn 17 oed. Cymerodd angau ymaith fywyd un o'r blodau harddaf a mwyaf gobeithiol a feddai cymmydogaeth Esgerdawe; un o blant yr ysgol Sabothol, ac un o'r darlienwyr Cymraeg gorau yr ardal. Och! er galar, mae ei lle yn wag. Wrth weled amser yn cario ein cyfeillion gorau fel hyn dros geulan amser, rwyf yn diolch am fodd i edrych tu draw i hyn ac i ddywedyd gyda'r bardd—

Bydd y gyfeillach yno'n bur,
Un dim i'w hoeri byth ni ddaw;
Nac angeu chwaith, nac ing na chûr,
I'n tafiu byth yr ochor draw.

Ap Dafydd.

Barddoniaeth.

PENILLION

A gyfansoddwyd ar gais Robert Davies, Twynyrodyn, fel annerchiad i'w ferch a'i fab-ynghyfraith, y rhai a aethant i fyw i Australia.

HAWDDAMOR anwyl fab a merch,
'Rych mewn estronol wlad;
Ond agos iawn i safle serch
Eich anwyl fam a'ch tad.

Os yn wrthdroediog 'rym yn awr
Bob tu i'r ddaear hon,
Nid ei thrwch etto, er mor fawr,
Eill newid teimlad bron.

Er maint y pellder rhyngom sydd,
Dros donau'r weilgi llaith;
Cynt attoch rhed ein meddwl rhydd
Na goleu'r dydd ei daith.

Yng ngwyll y nos mae weithiau'n dod,
Heb wyro ar ei hynt,
A mil o gofion yn ei gôd
O gell yr amser gynt.

Eich cofio weithiau'n blantos bach,
Yn chwareu ar y Twyn,
A gwŷn eich byd os nawr mor iach,
A'r teimlad hoff mor fwyn.

Nid crug o aur nac arian chwaith
Ddymunem iwch fwynhau;
Ond a fo'n ddigon ar y daith
Tra pery'r einioes frau.

Ac o! na foed i falchder gwael
Fyth eich andwyo chwi;
Ond am yr oll o'i roddion Ef
Rhowch fawl i'r Nefol Ri.

Nid plygu pen fel brwynen lawr,
A gwneuthur wyneb hir,
Nac aml amen a gwefl fawr
A'r celwydd yn lle'r gwir.

Ond gan fwynhau cydwybod rydd
I fynu byddo'r pen,
Er gwel'd y perffaith gariad sydd
Yn llywio dae'r a nen.

Clywch hyfryd sain yr adar mân,
Mor felus eu cyd gerdd!
Am gariad mae eu peraidd gân,
Bob pig trwy'r goedwig werdd.

Gwnewch chwithau ymddwyn at bob dyn
Fel caroch gael bob pryd;
Fel hyn y cewch, medd Crist ei hun,
Wir fwyniant o'r ddau fyd.

Merthyr. TIMOTHY DAVIES.

BOREOL WEDDI.

(*Efelychiad.*)

O Dduw, 'rwy'n diolch itti,
Fod un nos etto wedi
Myned heibio;
A'm bod yn y goleuni
Yma yn ymfywiogi,
Dan wenau'm Tad sy'n peri,
I'r dydd i wawrio.

Bydd immi yn arweinydd,
A boed im' fyw fy Nofydd,
O dan d' ofal;
Diwalla'm angenrheidiau,
A maddeu i mi fy meiau,
Pan godo'r meirw o'u beddau,
Bydd Di'n fy nghynnal. M.

DAU BENNILL I'R CASTELL COCH, GER TONGWYNLAS.

Balch ydyw muriau'r CASTELL COCH,
Yn adrodd eu hen oedran;
Er gwaethaf rhwysg tymhestloedd broch,
Ceir ef yn gryf a chyfan.
Mae yspryd Ifor Bach o hyd,
Ynghyd a'i wyliedyddion,
Yn lleng o'i gylch i'w gadw'n glyd,—
Hen noddfa rhag gelynion.

Mewn breiniol urdd mae'i wladgar ben,
Uwch claddfa'r brwydro chwerw,
A'i holl gaseion o dan len,
Yn mhriddell oer y meirw.
Mae ysbryd Ifor Bach o hyd,
Yn nghyd a'i wyliedyddion,
Yn lleng o'i gylch i'w gadw'n glyd,—
Hen noddfa rhag gelynion.

G. BRYCHEINIOG.

BEDD-ARGRAPH "P. A. MON."

"Cawr enwog mewn cywreinwaith—trwm yw'r cur,
Torri mur cerdd ymaith,
I fan rô—colofn yr iaith,
E chwalwyd er och eilwaith."

BEDD-ARGRAPH "CARNHUANAWC."

"Carnhuanawc" cawr ein hynys—gwnai'n henw,
Gwnai'n hanes yn nysbys;
Gwnai'r Delyn syw 'n fyw â'i fys,
O'r mawr ŵr, yma'r erys."

ANONY.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.